Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Polisi Masnach: materion Cymru

Diogelu Dyfodol Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Sut mae Cymru’n elwa ar Fasnach | 3 |
| Marchnad Fewnol y DU a Marchnad Sengl yr UE | 5 |
| Trefniadau Masnachu’r Dyfodol | 7 |
| Cydweithio | 20 |
| Cymru yn y Byd | 22 |
| Atodiad A: Tariffau Awgrymedig Potensial Sefydliad Masnach y Byd ar allforion o’r DU i’r UE fesul cynnyrch | 23 |
| Atodiad B: Masnach Ryngwladol Cymru | 24 |
| Atodiad C: Effeithiau Dewis o Gytundebau Masnach ar ôl Brexit ar Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig: Dadansoddiadau Sector gan ddefnyddio Model FAPRI-UK | 34 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33565 ISBN argraffu :978-1-78903-372-4 ISBN digidol: 978-1-78903-371-7

# Rhagair



Mae Cymru yn wlad fentrus sy'n masnachu yn fyd-eang. Mae ein busnesau yn masnachu ledled y byd ac yn 2016 roedd yr allforion o Gymru yn werth £14.6 biliwn. Yn ddiweddar rydym wedi rhyddhau ein ffigurau buddsoddi mewnol gorau am sawl blwyddyn.

Gadael yr Undeb Ewropeaidd yw'r newid mwyaf yn ein statws masnachu rhyngwladol ers canrifoedd. Beth bynnag yw'r heriau, rydym yn gwybod nad yw gadael yr UE yn golygu troi ein cefnau ar ein partneriaid masnachu yn Ewrop. Ar yr un pryd, dylem groesawu'r sbardun newydd ar gyfer cyfleoedd i fasnachu ledled y byd.

Wrth inni wynebu cam dau trafodaethau ymadael â'r UE, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth y gallwn i ddylanwadu ar sicrhau canlyniad sy'n rhesymegol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n llesol i fusnesau a dinasyddion ledled Cymru.

**Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

---



Bydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud wrth i Brydain ddatblygu perthynas fasnachu yn y dyfodol gyda'r UE a gweddill y byd yn diffinio buddiannau economaidd Cymru am flynyddoedd i ddod. Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o'n blaenoriaethau ar gyfer ein perthynas fasnachu yn y dyfodol gydag Ewrop a gweddill y byd wedi inni adael yr UE. Rwyf am sicrhau bod Cymru yn parhau i gael ei gweld fel gwlad wych i fasnachu â hi ac i fuddsoddi ynddi.

Bu inni gyhoeddi *Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd* – strategaeth genedlaethol newydd er mwyn creu Cymru mwy ffyniannus. Mae masnach yn elfen hanfodol o ffyniant economaidd Cymru ac yn elfen allweddol o'r Contract Economaidd rhwng busnesau a llywodraeth. Gyda'n gilydd rydym am sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd i fasnachu ledled y byd o fewn marchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n bodoli eisoes.

**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

## Crynodeb

Ar ddechrau 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Phlaid Cymru, Bapur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, yn cyflwyno sut yr ydym yn credu y dylai'r Deyrnas Unedig fynd ar drywydd tynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddogfen newydd hon yn rhoi sylw i'r materion allweddol y mae angen eu hystyried yn ein barn ni wrth i'r DU ddatblygu perthnasoedd masnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd ar gyfer y dyfodol.

Mae economi Cymru wedi'i integreiddio'n agos i'r Farchnad Sengl ac mae tua 61% o'r nwyddau sy'n cael eu hallforio, y gellir dweud eu bod yn rhai o Gymru, yn mynd i'r UE ac ychydig o dan hanner ein mewnforion yn dod o'r UE. Yn ychwanegol at hyn, mae llawer o gydrannau o Gymru'n cael eu defnyddio mewn nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu hallforio i'r UE o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig. I raddau helaeth, mae llwyddiant Cymru i ddenu buddsoddiad uniongyrchol o dramor dros nifer o ddegawdau, yn seiliedig ar fynediad at farchnad yr UE, sydd gyfwerth â dros 500 miliwn o gwsmeriaid.

Gwlad fentrus yw Cymru, ac mae'n wlad sy'n masnachu ar draws y byd. Mae'n dal i fod ar agor i fusnes. Mae gennym economi amrywiol, sy'n ffynnu, ac mae'n cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer masnachu a buddsoddi. Rydym yn lletya cwmnïau technoleg sy'n arwain y byd, ynghyd â chyfleusterau ymchwil a datblygu rhagorol, gweithlu hynod o fedrus a chyfoeth o adnoddau naturiol. Os bydd ein hymadawiad o'r UE yn synhwyrol, rydym mewn lle da i wynebu heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Credwn fod parhau i gael mynediad llawn a dirwystr at Farchnad Sengl Ewrop yn hanfodol i fuddion economaidd Cymru yn y dyfodol. Rydym yn parhau i fod yn amheus fod gadael undeb tollau â'r UE o fudd inni, o leiaf cyn belled ag y bo modd dweud ar hyn o bryd. Os yw Llywodraeth y DU yn mynd ar drywydd ei pholisi o adael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau gan ffafrio polisi masnach hollol annibynnol, bydd hyn yn cyflwyno risg o osod rhwystrau di-dariff, ac, o bosibl, tariffau, a allai fod yn niweidiol i fusnes yng Nghymru a'r DU. Nid ydym wedi clywed unrhyw ddadl gadarn i'r gwrthwyneb.

Bydd masnach yn dal i fod yn faes cymhwysedd ecsgliwsif i'r UE hyd nes i ni adael yr UE. Ar ôl i ni adael, bydd polisi masnach y DU yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yn bennaf, ond gyda chroestoriad sylweddol gyda phwerau datganoledig megis safonau amgylcheddol, datblygu economaidd, amaethyddiaeth, sgiliau a chymwysterau. Rhaid gwneud penderfyniadau ar berthnasoedd masnachu newydd, gyda'r UE a'r byd ehangach, trwy gydweithrediad agos rhwng Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig, er mwyn llwyr adlewyrchu buddion y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Croesawn yn gryf gydnabyddiaeth Llywodraeth y DU yn ei Phapur Gwyn, *Preparing for our Future UK Trade Policy*, fod gan Lywodraethau Datganoledig (ac yn wir, deddfwrfeydd) rhan bwysig i'w chwarae wrth lunio siâp polisi masnach yn y dyfodol, o ystyried effaith masnach ar feysydd cymhwysedd datganoledig. Croesawn hefyd y pwyslais ar dryloywder a chynhwysiant fel egwyddorion craidd y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu polisi masnach yn y dyfodol.

Disgwyliwn i Lywodraeth y DU ymgynghori'n helaeth â Llywodraeth Cymru, a chael ein caniatâd pryd bynnag y bydd polisi masnach yn effeithio ar gymwyseddau datganoledig. Rydym yn bartner parod ac adeiladol, ac yn barod i ymgysylltu. Rydym yn dadlau yn *Brexit a Datganoli* dros fecanwaith newydd i gytuno ar gydymagweddau at faterion cadw sy'n torri ar draws meysydd cymhwysedd datganoledig. Rydym yn galw am sefydlu Cyngor o Weinidogion y DU fel fforwm ymgynghori ar faterion masnach rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Fel mesur interim, dylid sefydlu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol i sicrhau bod ymagwedd Llywodraeth y DU at bolisi masnach yn ystyried buddion a materion y sefydliadau datganoledig.

## Sut mae Cymru'n elwa ar Fasnach

**Mae masnach yn rhan hanfodol o sicrhau ffyniant pobl Cymru trwy bweru'r economi, creu swyddi a rhoi dewis i ddefnyddwyr am y prisiau mwyaf cystadleuol. Mae allforion rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru, ac mae mewnforion yn darparu mewnbynnau ar gyfer busnesau a nwyddau i gwsmeriaid, gan gadw'r prisiau'n isel a chynyddu'r dewis. Yn 2016 roedd y nwyddau a allforiwyd o Gymru'n werth £14.6 biliwn a'r gwasanaethau a allforiwyd werth £1.7 biliwn. Aeth 61% o'r nwyddau a allforiwyd i'r UE ac aeth 35% o'r gwasanaethau, y gellid dweud eu bod o Gymru, a allforiwyd i'r UE.**

Amcan sylfaenol polisi masnach yw gwella incwm pobl, a'u safonau byw, dros y tymor hir, trwy sicrhau bod adnoddau economaidd yn cael eu dyrannu'n effeithlon, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn amlwg, mae gan Lywodraeth Cymru fudd mewn sicrhau bod polisi masnach yn cyflawni yn erbyn y cyrchnodau hyn ar gyfer dinasyddion a busnesau Cymru.

Nid yw masnach ryngwladol yn 'swm sero' – gall pob gwlad sy'n cymryd rhan mewn masnachu rhyngwladol rhydd elwa o fynediad at ddewis ehangach o nwyddau a gwasanaethau, ac at y buddion sy'n codi o fwy o arbenigedd. Fodd bynnag, fel sy'n wir yn achos arloesi a chynnydd technolegol, gall dinasyddion unigol ddioddef os yw'r galw am eu sgiliau a'u profiad yn cael ei erydu. Gellir tanseilio rhannau o economi domestig, gyda chanlyniadau sylweddol yn y tymor byr i'r tymor canolig, trwy agor i fyny i fwy o gystadleuaeth. Mae ein cynllun datblygu economaidd, *Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd* yn disgrifio sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynorthwyo i glustogi effaith newid economaidd, trwy ymrwymo i Gontract Economaidd newydd rhwng busnes a llywodraeth i ysgogi twf, cynyddu cynhyrchiant a sicrhau bod Cymru yn wlad decach a mwy cynhyrchiol.

Ymhellach, gall y theori fod masnach rydd yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn llesiant fethu â chael ei wireddu'n ymarferol os yw'r gystadleuaeth yn annheg, er enghraifft os nad yw polisïau un wlad yn adeiladu costau amgylcheddol cynhyrchu i mewn i brisiau cynnyrch, ond mae eraill yn eu cynnwys, neu lle mae safonau llafur un wlad yn sylweddol is na safonau llafur gwlad arall. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymagwedd yr UE at fasnach ryngwladol, sy'n mynnu ystyried materion cyfartaledd rheoleiddiol wrth agor marchnadoedd. Credwn ymhellach ym muddion fframwaith cadarn o reoleiddiad Ewropeaidd ar safonau amgylcheddol a chyflogaeth, a system deg ac effeithiol o amddiffyniad cymdeithasol i gynorthwyo pobl pan fydd arnynt angen cymorth. Mae Cymru wedi ymrwymo i 'waith teg': gwaith pwrpasol sy'n cyfoethogi bywyd, heb ecsbloetio na thlodi, lle rydym yn adeiladu ffyniant ac yn ei rannu. Dylai polisi masnach gefnogi ein model cymdeithasol ac nid ei danseilio.

Mae masnach yn gymorth i hybu gallu ein cwmnïau i gystadlu ac mae'n hybu cystadleuaeth o fewn yr un sector. Er enghraifft, gallai cwmni gweithgynhyrchu o Gymru sydd â mynediad at farchnadoedd byd-eang ac sy'n ymdrechu i gystadlu ynddynt, weld effeithlonrwydd uwch, gyda gweithwyr yn cynhyrchu mwy, yr awr, a/neu'n cynhyrchu cynhyrchion o ansawdd uwch am yr un mewnbynnau. Gallai hyn yn y pendraw, gynyddu twf economaidd yng Nghymru a allai arwain at incwm uwch a gwell safonau byw i'r gweithwyr[1].

Mae masnach yn cwmpasu mewnforion yn ogystal ag allforion. Mae mewnforion yn hanfodol i safonau byw ein dinasyddion, ac maent yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch i ddefnyddwyr, am brisiau is. Mae mynediad

[1] Mae ystod o dystiolaeth i ddangos bod allforio yn helpu i gynyddu cynhyrchiant cwmni. Gweler er enghraifft: (1) Learning-by-Exporting? Firm-Level Evidence for UK Manufacturing and Services Sectors. Harris, and Qian Cher Li. **https://www.gla.ac.uk/media/media_36279_en.pdf**


at y mewnbynnau o'r ansawdd gorau, sydd yn aml yn cael eu mewnforio, hefyd yn hanfodol i lwyddiant allforio.

Nid yw bathodyn 'Gwnaed yng Nghymru' o angenrheidrwydd yn golygu bod pob cydran sy'n rhan o'r cynnyrch wedi'i chreu yng Nghymru. Mae gan lawer o gwmnïau yng Nghymru gadwyni cyflenwi cymhleth ac maent yn aml yn dod â defnyddiau a chydrannau o'r UE a rhannau eraill o'r byd. Tanlinellir pwysigrwydd y cadwyni cyflenwi byd-eang hyn yn yr astudiaeth achos ganlynol sy'n edrych ar weithgynhyrchu soffa yng Nghymru.

Mae yna gysylltiad agos rhwng Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor – lle mae cwmni o un wlad yn buddsoddi mewn gweithrediadau sydd wedi'u lleoli mewn gwlad arall, naill ai trwy sefydlu is-weithrediadau neu trwy gaffael ar fusnesau sydd eisoes yn bodoli – a llif masnach. Awgryma hyn y dylid ystyried masnach a Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor ochr yn ochr, yn enwedig gan fod y dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn gallu gweithio law yn llaw. Gall Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor i'r DU, gan wledydd tramor, roi i gwmnïau fynediad at y mewnbynnau mwyaf datblygedig ar gyfer cynhyrchu, gan gynnwys technolegau ac arferion gweithio newydd. Gall Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor gan y DU mewn gwledydd eraill, ddatgloi marchnadoedd newydd lle mae allforio o'r wlad gartref yn heriol oherwydd rhwystrau ar fasnach. Gall hefyd ganiatáu i gwmnïau o Gymru elwa ar y dechnoleg, y syniadau arloesol a'r wybodaeth sydd gan gwmnïau tramor.

Hyd yn oed pan mae'n bosibl allforio, mae Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor yn gallu gweithio law yn llaw gydag allforion wrth i gwmnïau gymryd rhan mewn cadwyni cyflenwi byd-eang: darganfu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fod modd cynyddu allforion £2 am bob £1 o Fuddsoddiad Uniongyrchol o Dramor gan y DU mewn gwledydd tramor[2].

## Taith Soffa a Weithgynhyrchwyd yng Nghymru




[2] Productivity, Exporting and the Learning-by-Exporting Hypothesis: Direct Evidence from UK Firms Crespi Criscuol and Haskel; personal.lse.ac.uk/criscuol/papers/prod_export_learn_28April07.pdf

## Marchnad Fewnol y DU a Marchnad Sengl yr UE

**Mae economi Cymru wedi'i sefydlu'n ddwfn o fewn economi ehangach y DU. Mae 'disgyrchiant masnach' yn gymorth i esbonio pam y mae Cymru'n masnachu mwy gydag Ewrop na gweddill y byd. Mae'n annhebygol iawn, yn y tymor byr, y gallai deliau masnach rydd gyda gwledydd eraill – hyd yn oed gydag Unol Daleithiau America – wneud iawn am golli mynediad lawn a dirwystr at y Farchnad Sengl. Byddai angen cefnogi unrhyw awgrym o'r fath gyda thystiolaeth sy'n argyhoeddi. Tystiolaeth nad ydym wedi ei gweld hyd yn hyn.**

Dengys gwaith dadansoddi bod gwledydd yn dueddol o fasnachu mwyaf gyda'u cymdogion agos, effaith y cyfeirir ati fel 'disgyrchiant masnach'.

Yn achos marchnad fewnol y DU, mae 'disgyrchiant masnach' yn gymorth i esbonio pam y mae'r economi yng Nghymru wedi'i sefydlu'n ddwfn o fewn economi ehangach y DU. Ystyr agos yw llwybrau trafnidiaeth 'naturiol' a chostau trafnidiaeth is, rhannu cyd-destunau sefydliadol a busnes, a chwlwm diwylliannol a hanesyddol sy'n hwyluso perthnasoedd masnachu. Ar hyn o bryd, ni fesurir graddau'r rhyng-gysylltedd rhwng busnesau Cymru a busnesau mewn ardaloedd eraill yn y DU gan ystadegau swyddogol (gan gynnwys faint y mae cwmnïau Cymru'n ei allforio i'r UE yn anuniongyrchol trwy'r DU), er bod ymchwil a dadansoddiad yn awgrymu bod gwerth busnes Cymru gyda gweddill y DU sawl gwaith yn fwy na gwerth masnach ryngwladol Cymru.

Am y rheswm yma, rydym wedi ymrwymo'n gryf i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sicrhau nad yw Brexit yn dadsefydlogi marchnad fewnol y DU. Eisoes, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth i fusnesau i ddysgu ac addasu'u busnesau, yma a thramor. Mae gwasanaeth Busnes Cymru yn cynnig pwynt cyswllt i fusnesau ac entrepreneuriaid sydd am gael mynediad at gyngor a chymorth, a gellir cael mynediad ar-lein trwy **businesswales.gov.wales/cy**



**61%**

**o allforion nwyddau o Gymru y gellir eu nodi i'r UE yn 2016**

**49%**

**o allforion nwyddau y DU i'r UE yn 2016**

Fodd bynnag, nesaf i fasnach rhwng ardaloedd o'r DU, mae disgyrchiant masnach yn helpu i egluro sut y mae mynediad at y Farchnad Sengl[3] sydd wedi'i ffurfio gan y 27 o wledydd fydd ar ôl yn yr UE a gwledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein) yn holl bwysig i ragolygon economaidd Cymru. Mae dadansoddiad yn dangos y byddai gostyngiad sylweddol mewn mynediad i'r Farchnad Sengl – trwy gyflwyno tariffau neu rwystrau di-dariff – yn niweidiol, a po fwyaf y bydd y gostyngiad hwn, y gwaethaf fydd y canlyniadau o ran llai o dwf neu dwf negyddol. Mae mwyafrif llethol yr astudiaethau'n awgrymu bod yna gysylltiad agos rhwng costau gadael yr UE a graddau'r mynediad a gedwir at y Farchnad Sengl ar ôl gadael. Er enghraifft, dengys dadansoddiad gan y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd yn Ysgol Economeg Llundain y gallai'r costau ar y

[3] Mae Erthygl 26(2) Y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ('TFEU') yn cynnwys y diffiniad canlynol o'r Farchnad Sengl: '*The internal market shall comprise an area without internal frontiers in which the free movement of goods, persons, services and capital is ensured in accordance with the provisions of the Treaties*'.

cyfan, yn y pendraw, amrywio rhwng un a deg y cant o incwm y pen, gydag amcangyfrifon tuag at ben isaf yr amrediad yn berthnasol yn achos cyfranogiad llawn yn y Farchnad Sengl, ac amcangyfrifon tuag at ben uchaf yr amrediad yn berthnasol petai'r DU yn masnachu gyda'r UE dan reolau Sefydliad Masnach y Byd[4].





**Yn 2016 roedd allforion nwyddau o Gymru yn werth**

**£14.6b**

Mae'n rhesymegol, felly, i wledydd edrych tuag at eu cymdogion agosaf yn y lle cyntaf wrth ddatblygu cysylltiadau masnach. Ni argyhoeddwyd Llywodraeth Cymru hyd yn hyn y gallasai mynd ar drywydd deliau masnach rydd gyda thrydydd gwledydd – hyd yn oed Unol Daleithiau America – wneud iawn am golli'r math o fynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl sy'n hanfodol, yn ein barn ni, i ffyniant ein gwlad yn y dyfodol. Byddai angen cefnogi'r fath awgrym gyda thystiolaeth, ac nid ydym wedi gweld y dystiolaeth honno wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Prydain hyd yn hyn.

## Ffigur 1: Nwyddau a allforiwyd, 2016, % y cyfanswm




[4] Gweler: Brexit: The Economics of International Disintegration Thomas Sampson Papur Trafod Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd, Rhif 1499 Medi 2017 **cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp1499.pdf**


**Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid inni sicrhau mynediad llawn a di-rwystr i'r Farchnad Sengl. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod gadael yr Undeb Tollau gyda'r UE o fudd inni, cyn belled ag y gwelwn ar hyn o bryd.**

## Yr UE

Ers dros bedair degawd, mae'r DU wedi bod yn rhan o'r UE a, gyda datblygiad y 'farchnad fewnol', wedi'i hyrwyddo gan Lywodraethau olynol y DU, mae masnach rhwng y DU a'r UE wedi dod yn fwy a mwy llyfn. Yn y rhan fwyaf o achosion, prin yw'r gwahaniaeth rhwng y gost a'r baich biwrocrataidd y mae busnesau Cymru'n eu hwynebu wrth werthu cynnyrch yn yr Almaen neu Malta a gwerthu yn yr Alban. Daeth busnesau yng Nghymru i ddibynnu ar y mynediad hwylus hwn i'r Farchnad Sengl fel ffynhonnell eitemau ac i werthu nwyddau a gwasanaethau. Dengys data CThEM fod 61% o'r nwyddau y gellir eu hadnabod fel rhai sy'n cael eu hallforio o Gymru i lefydd tu allan i'r DU wedi mynd i'r UE yn 2016[5] (gweler atodiad B). Cred gyson Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid mai sicrhau mynediad llawn a dirwystr at Farchnad Sengl yr UE yw prif flaenoriaeth Llywodraeth y DU.

O ran perthynas masnachu gyda'r UE yn y dyfodol, dylid gweld hyn fel dau gam penodol, sef cyfnod pontio a'r berthynas hirdymor.

**Ffigur 2: Nwyddau a Fewnforiwyd i Gymru, £m**




[5] Mae data masnach CThEM yn amcangyfrif sy'n seiliedig ar ddata tollau ac yn gyfran o fasnach i Gymru yn seiliedig ar nifer y gweithwyr. Nid yw data masnach ar gyfer Cymru felly'n fanwl gywir a gall amrywio dros amser, gan ddibynnu ar y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigurau.

## Y Cyfnod Pontio

O'r cychwyn cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau dros gyfnod pontio i sicrhau sefydlogrwydd i'n busnesau a'n heconomi wrth i ni adael yr UE. Rydym wedi dweud yn glir o'r cychwyn nad yw'r ddwy flynedd a ganiateir o dan ddarpariaethau proses Erthygl 50 yn ddigon i bennu sylfaen perthynas gyda'r UE ar gyfer y dyfodol, mor fanwl ag sy'n ofynnol. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cydnabod yr angen am gyfnod pontio neu 'gyfnod gweithredu'.


Yn ystod y cyfnod pontio hwn, mae cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl, ar sail aliniad llwyr ein safonau ar gyfer cynnyrch a rheoleiddio gyda rhai'r UE, yn hanfodol i fusnesau Cymru. Gyrrir hyn gan y ffaith fod astudiaethau'n dangos bod effaith rhwystrau ar fasnach nad ydynt yn dariffau yn sylweddol, efallai llawer mwy na rhwystrau tariff[6].

Mae osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' hefyd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i lawer o sefydliadau busnes arweiniol megis Ffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach a'r Siambr Fasnach. Er y gallai union ffurf unrhyw ddêl bontio amrywio, credwn ei fod yn hanfodol iddi gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Parhad ac eglurder i fusnesau;
- Dim rhwystrau di-dariff, gan gynnwys gweithdrefnau tollau;
- Dim dargyfeiriad ar safonau rheoleiddiol na'r ardystiad sy'n ofynnol i gael mynediad at Farchnad Sengl yr UE.

Dylid dod i gytundeb ar drefniant bontio cyn gynted â phosibl. Mae'r diffyg eglurder ynghylch trefniadau masnach gyda'r UE yn y dyfodol yn creu heriau sylweddol i fusnesau. Yn absenoldeb gwybodaeth gadarn, mae busnesau'n debygol o gynllunio ar gyfer y senario waethaf bosibl, a allai olygu bod cwmnïau'n dewis buddsoddi dramor yn lle buddsoddi yng Nghymru, neu'n gohirio penderfyniadau ynghylch buddsoddi, gan niweidio'n heconomi nawr ac yn y dyfodol.

Yn ei 'haraith Florence' ar 22 Medi 2017, dywedodd y Prif Weinidog y dylai cyfnod gweithredu barhau ar y telerau presennol ac mai'r fframwaith ar gyfer y cyfnod cyfyngedig hwn o amser fyddai strwythur presennol rheolau a rheoliadau'r UE. Er nad yn felys mewn sawl ffordd, credwn mai'r math o bontio a ragwelir nawr gan Lywodraeth y DU yn ôl pob tebyg – sef aros yn y Farchnad Sengl ac Undeb Tollau, yn rhwym i bob pwrpas gan holl ddisgyblaethau'r UE tra'r tu allan i'w sefydliadau gwleidyddol yn ffurfiol – yw'r unig ffordd ymarferol o leihau rhwystrau i fasnach, ac felly cadw'r effaith ar economi Cymru i leiafswm. Os oes canlyniadau ariannol i'r DU wrth gadw at y sefyllfa fel y mae, buaswn yn annog Llywodraeth y DU i ystyried y rhain mewn perthynas â'r difrod economaidd a allai ddilyn 'senario ymyl clogwyn' – colled o hyd at 8-10% mewn allbwn economaidd[7].




**Yn 2016**

**Peiriannau a Thrafnidiaeth oedd**

**54%**


**o allforion nwyddau o Gymru**



**Gwasanaethau gweithgynhyrchu - allforion gwasanaethau mwyaf o Gymru yn 2015**

[6] http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp1478.pdf
[7] http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp1499.pdf

## Ffigur 3: Cyrchfannau prif allforion nwyddau, Cymru - 2016, % y cyfanswm




Yn olaf, cyhyd ag sy'n gyfreithiol bosibl, dylai trefniant pontio fod ar waith hyd nes y cytunir ar ddêl hirdymor, ac ni ddylai fod arno gyfyngiad amser mympwyol, neu'r perygl yw mai gohirio'r 'ymyl clogwyn' fyddwn ni.

Galwn nawr ar Lywodraeth y DU i gytuno i:

- fwy o fanylion ynghylch sut y byddai'r cyfnod pontio (neu'r cyfnod gweithredu) yn gweithio;
- mwy o hyblygrwydd ynghylch y cyfnod pontio (dim cyfyngiad mympwyol).

### Ar ddiwedd y cyfnod pontio

Cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl yw'r brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn y tymor hirach hefyd, o ystyried pwysigrwydd llethol marchnad yr UE i fusnesau Cymru, a'r theori 'disgyrchiant masnach' a amlinellwyd uchod.

Rhaid i Lywodraeth y DU fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch unrhyw gyfaddawdu posibl lle gallai ei huchelgais i gytuno ar ddeliau masnach gyda thrydydd gwledydd o gwmpas y byd beryglu mynediad llawn a dirwystr at yr UE. I Gymru, gallai'r cyfaddawdu negyddol hwn fod yn arwyddocaol.

Hyd yn hyn, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â pham y mae'n credu bod buddion posibl gadael yr Undeb Tollau yn gorbwyso buddion bod yn rhan o undeb tollau. O ganlyniad, rydym yn dadlau dros berthynas dollau hirdymor gyda'r UE sy'n efelychu'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, i'r graddau helaethaf posibl.

### Tu Allan i'r UE


Ar adegau, mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu bod 'dim dêl yn well na dêl wael' sy'n golygu y gallai gerdded i ffwrdd wrth drafodaethau gyda'r UE a masnachu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd yn unig, os nad yw'n gallu sicrhau dêl ffafriol. Mae sefyllfa 'dim dêl' hefyd yn bosibl os yw'r amser ar gyfer y trafodaethau'n dod i ben (neu nid yw'r amser yn cael ei ymestyn) cyn y cytunir ar unrhyw ddêl neu drefniadau pontio. Yn yr achos hwn, o fis Mawrth 2019 buasai'r DU yn masnachu gyda'r UE heb unrhyw fynediad ffafriol at y farchnad.

Mae'r UE yn trafod ar ran ei holl aelodau yn Sefydliad Masnach y Byd. Wrth i ni adael yr UE bydd y DU yn sefydlu ei hun o'r newydd fel aelod annibynnol o Sefydliad Masnach y Byd. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio 'unioniad technegol' er mwyn galluogi i hyn ddigwydd. Golyga hyn y bydd Llywodraeth y DU yn efelychu 'cyhyd ag sy'n bosibl' yr ymrwymiadau a wnaed gan yr UE, ac eithrio mewn rhai meysydd lle nad yw efelychu'r ymrwymiadau presennol yn uniongyrchol yn broses syml (e.e. rhannu Cwotâu Tariff yr UE a chytuno ar derfyn cymorth ar gyfer amaethyddiaeth sy'n ystumio masnach, y Mesur Cymorth Agregedig). Mae Llywodraeth y DU yn anelu at sicrhau bod y rhaglenni hyn ar waith y diwrnod yr ydym yn gadael yr UE, ac felly buasent yn berthnasol ar unwaith pe na bai dêl.

Mae'n bwysig fod Llywodraeth y DU yn cytuno ar gydymagwedd gyda'r Llywodraethau Datganoledig cyn unrhyw gytundeb ar lefel Sefydliad Masnach y Byd. Gan fod masnach yn effeithio ar feysydd datganoledig, fel amaethyddiaeth a physgodfeydd, a pholisi economaidd rhanbarthol, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU ein cynnwys ni'n llwyr yn natblygiad polisi masnach.

Buasai masnachu gyda'r UE dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn arwain at risg uchel o darfu masnachol ac economaidd sylweddol, gyda chynnydd ar unwaith yn y costau a'r baich gweinyddol. Gallai arwain at ymddangosiad sydyn rhwystrau i fynediad at farchnadoedd yr UE i'r rheiny sy'n masnachu mewn nwyddau neu wasanaethau. Yn ôl FSB mae cwmnïau o Gymru sy'n allforio bedair gwaith yn fwy tebygol o allforio i gyrchfan o fewn yr UE na chyrchfan y tu allan i'r UE[8]. Gallai hefyd arwain at darfu ar fasnach gyda thrydydd gwledydd lle nad yw'r DU yn gallu elwa mwyach ar gydgrynhoad Rheolau Tarddiad gyda gwledydd eraill sy'n aelodau o'r UE[9].

**Ffigur 4: Allforion a mewnforion nwyddau Cymru, 2016, £m**




[8] Making Brexit Work for Wales' smaller businesses: FSB Medi 2017
[9] Mae "rheolau tarddiad" cronnol fel y'u gelwir yn caniatáu i wledydd sy'n rhan o gytundeb fasnach ffafriol rannu cynhyrchiant a chydymffurfio ar y cyd â darpariaethau y rheolau tarddiad perthnasol.

# Mathau o Rwystrau i Fasnach

## Ar gyfer Nwyddau

**Tariffau**: tâl ariannol ar ffurf treth a osodir ar nwyddau sy'n cael eu cludo o un ardal dollau i ardal dollau arall, ac a ailadroddir bob tro y bydd hyn yn digwydd.

**Rhwystrau Di-Dariff**: Rhwystrau masnach sy'n cyfyngu ar fewnforio neu allforio nwyddau neu wasanaethau trwy ddulliau gwahanol i godi tariffau. Gallant gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i:

- **Gweithdrefnau a dosbarthiadau** tollau gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:
  - Reolau Tarddiad i benderfynu a yw nwyddau yn cael eu cynhyrchu mewn gwlad sy'n aelod (gan leihau tariff), neu yn dod o wlad nad yw yn aelod (heb leihau tariff). Mae Rheolau Tarddiad fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynnyrch terfynol gael ei "gynhyrchu'n sylweddol" yn y wlad sy'n allforio (neu yn achos cytundebau masnach rydd yr UE, yn cael eu trafod gyda'r UE).
  - Trwyddedau mewnforio e.e. ar gyfer offer militaraidd neu eitemau sensitif eraill.
- **Cwotâu:** cyfyngu meintiol ar fewnforion.
- **Cymorthdaliadau**: cymorth ariannol a ddefnyddir i warchod diwydiannau domestig.
- **Cwotâu ar gyfradd tariff:** caniatáu nifer benodol o nwyddau ar un cyfradd tariff ("o fewn cyfradd cwota") ond codir cyfradd tariff uwch ar gyfer mewnforion ychwanegol ("cyfradd y tu allan i'r cwota").
- **Rhwystrau Technegol i Fasnach**: Rheoliadau, safonau, gweithdrefnau profi a thystysgrifau, a allai gyfyngu ar fasnach. Gallai hyn gynnwys rheolau ar gyfer safonau technegol, cynnyrch ac/neu amgylcheddol, mesurau glanweithiol a sicrhau iechyd planhigion wrth ddelio gyda diogelwch bwyd a iechyd anifeiliaid a phlanhigion.
- Gwaith papur sy'n gysylltiedig â **TAW**.

## Ar gyfer Gwasanaethau

- Fframweithiau rheoleiddio gwahanol i fusnesau weithredu tu mewn iddynt
- Cyfyngiadau ar berchenogaeth/rheolaeth o dramor
- Rheolau achredu/trwyddedu cymhleth i fusnesau tramor
- Cyfyngiadau ar bersonél o dramor (e.e. teithebau fisa)
- Ddim yn cydnabod cymwysterau o dramor
- Cymorthdaliadau ar gyfer diwydiannau domestig/diwydiannau sy'n eiddo i'r wladwriaeth.

## Effaith ar y Sectorau yng Nghymru

Mae ystod eang i dariffau nwyddau yr UE, o oddeutu 2% i 3% o werth y nwyddau mewn rhai sectorau (er y gallai effaith gronnol ail-groesi ffiniau fod yn sylweddol uwch) i mor uchel â 45% (gweler atodiad A) ar rai cynnyrch bwyd.

Bydd yr effaith ar sectorau yn debygol o ddibynnu nid yn unig ar gyfradd y tariff ond hefyd ar ba mor fregus yw'r sector i rwystrau di-dariff – yn benodol pa mor ddibynnol yw busnesau ar gadwyni cyflenwi ledled Ewrop. Mae rhai cwmnïau o Gymru yn arbenigo mewn gweithgynhyrchu cynnyrch sydd â'u cydrannau yn croeso ffiniau cenedlaethol sawl gwaith cyn cael eu cwblhau. Mae cydrannau a ddefnyddir yn y diwydiant modurol er enghraifft yn croesi ffiniau sawl gwaith cyn cael eu gosod ar y cynnyrch terfynol.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod rhwystrau di-dariff o bosibl yn fwy niweidiol na thariffau i nifer o fusnesau y DU, yn benodol y sectorau bwyd a modurol[10]. Gallai effaith gweithdrefnau tollau a rhwystrau technegol i fasnach, sy'n achosi oedi a chostau, fod yn hynod niweidiol i economi Cymru.

Bydd gweithdrefnau tollau bob tro y mae cydran yn croesi ffin gan greu tariffau, oedi a gwiriadau, yn ychwanegu'n sylweddol at gostau'r cynnyrch hwnnw. Gallai hyn olygu nad oes modd i gwmnïau o Gymru gystadlu â chwmnïau ar y tir mawr yn Ewrop. Hefyd, bydd cwmnïau yn yr UE yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod eu cynnyrch terfynol yn bodloni'r meini prawf o gael eu cynhyrchu yn yr UE ar y cyfan, i fodloni profion y Rheolau Tarddiad sy'n gysylltiedig â Chytundebau Masnach Rydd trydydd gwlad yr UE. Pe byddai'r DU i ddod yn "drydydd gwlad" – o ran ei pherthynas fasnach gyda'r UE – yna ni fyddai ein cynnyrch yn cael eu dosbarthu fel "wedi'i wneud yn yr UE", felly byddai cwmnïau sy'n allforio o'r UE yn llai tebygol o ddefnyddio cydrannau sy'n dod o'r DU.

Yn yr un modd, mae rhwystrau technegol i fasnach megis rhwystrau rheoleiddiol i wneud busnes yn yr UE yn debygol o godi pe byddai y DU yn ymddatod wrth y Farchnad Sengl ac nad oes ganddi gytundeb ddwy-ochrog.  Byddai rhwystrau o'r fath yn codi pe byddai rheoliadau domestig y DU yn dechrau gwahaniaethu o reoliadau'r UE.

Gallai hyn olygu archwiliadau ar y ffin a phrofion i sicrhau bod cynnyrch yn bodloni safonau yr UE. Gallai hyn fod yn feichus iawn ar gyfer nwyddau sy'n wynebu rheoliadau ychwanegol megis cynnyrch anifeiliaid, deunydd niwclear a chemegion. Ar hyn o bryd gall asiantaethau Llywodraeth y DU roi trwyddedau am nwyddau o'r fath sy'n ddilys ar draws yr UE, ond gallai hyn ddod i ben os byddwn yn gadael heb drefniant. Efallai na fydd cwmnïau'r DU yn gallu dibynnu bellach ar achrediadau o asiantaethau'r DU i werthu i farchnad yr UE.

Yn Nhabl 1 ceir crynodeb o'r dadansoddiad a wnaed gan Ysgol Fusnes Caerdydd, mewn perthynas â'r sectorau a allai fod fwyaf hyglwyf i broses bontio'r UE yng Nghymru[11]. Prif ffocws yr adroddiad yw cwmnïau mawr a chanolig yn y sectorau a flaenoriaethwyd gan Lywodraeth Cymru yn *Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd*. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu:

- Bod y sectorau sydd â'r mwyaf o risg oherwydd y tariffau (mewnforion ac allforion) yn cynnwys y sectorau moduro, cemegol, dur a pheirianneg drydanol.
- Mai'r sector sydd â'r mwyaf o risg oherwydd rhwystrau di-dariff yw'r sector awyrofod.
- Bod y sectorau sydd ddim wedi'u cyfeiriadu tuag at yr UE (o ran mewnbwn a marchnadoedd) a chynhyrchu sydd wedi'i sefydlu mewn lleoliad penodol, yn gweld llai o risgiau yn sgil Brexit.


[10] The Product and Sector Level Impact of a Hard Brexit across the EU: Working Paper No. 550, Tachwedd 2016, Martha Lauless and Edgar L. W. Morgenroth

[11] EU Transition and Economic Prospects for large and medium sized firms in Wales' Ysgol Fusnes Caerdydd

Mae'r sectorau hyn yn cynnwys adeiladu a pheirianneg sifil, papur a phren, gwasanaethau busnes a chynhyrchu teledu.

- Bod nifer o fusnesau canolig a mawr yng Nghymru, eisoes yn ffactorio Brexit i mewn i benderfyniadau busnes gyda goblygiadau economaidd clir. Mae penderfyniadau busnes allweddol yn cael eu gwneud nawr ynghylch buddsoddi yn y dyfodol, ymhell cyn cau pen y mwdwl ar drafodaethau Brexit.
- Bod cystadleuaeth o fewn cwmnïau am fuddsoddiad yn fater allweddol i fusnesau Cymru sydd â ffatrïoedd cangen yng Nghymru ond pencadlysoedd dramor. Mae hyn yn fater penodol i sectorau megis awyrofod, moduro a thrafnidiaeth, a pheirianneg drydanol.
- Y buasai tariffau rhwng y DU a'r UE yn achosi trafferthion i lawer o gwmnïau: mae rhwystrau nad ydynt yn dariffau hefyd yn bryder allweddol.
- Mai nifer o'r sectorau sy'n debygol o deimlo effaith fwyaf Brexit yw'r rheiny sy'n darparu swyddi sylweddol a gweithgarwch sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at economi Cymru. Gallai'r effeithiau economaidd ehangach ar Gymru fod yn sylweddol petai effaith negyddol ar y sectorau hynny.

## Cadwyn Gyflenwi "Trawsffiniol" yn y Diwydiant Modurol



## Tabl 1:
## Crynodeb o sut y sgoriwyd sectorau ar wahanol agweddau ar risg

| | Effeithiau tariffau ar fasnach allforio'r sector yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol | Effeithiau tariffau ar fewnbynnau | Effeithiau rhwystrau nad ydynt yn dariffau ar fasnach a gweithgarwch | Risgiau i'r farchnad lafur | Effeithiau newid yng ngweithgarwch cwmnïau ar yr economi rhanbarthol | Effeithiau sy'n gysylltiedig â cholli mynediad at rwydweithiau a fframweithiau gwybodaeth ac arloesi'r UE | Effeithiau sy'n gysylltiedig â cholli mynediad at rwydweithiau a fframweithiau gwybodaeth ac arloesi'r UE | Lleoliad mewn rhwydweithiau corfforaethol, y graddau y mae wedi'i sefydlu ac opsiynau tebygol i gymryd lle gweithgarwch Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Systemau a gwasanaethau awyrofod | Canolig - Uchel | Canolig | Uchel | Canolig | Uchel | Uchel | Canolig - Uchel | Canolig |
| Cerbydau modur, trafnidiaeth a meysydd cysylltiedig | Uchel | Uchel | Canolig | Isel | Uchel | Canolig | Uchel | Canolig - Uchel |
| Gwasanaethau busnes | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel - Canolig | Isel | Isel | Isel - Canolig |
| Adeiladu a pheirianneg sifil | Isel | Isel | Isel | Isel - Canolig | Canolig - Uchel | Isel | Isel | Isel |
| Cydrannau, lled-ddargludyddion peirianneg drydanol | Uchel | Uchel | Canolig | Isel | Canolig - Uchel | Canolig | Canolig - Uchel | Canolig - Uchel |
| Ynni a chyfleustodau | Isel | Isel | Isel | Isel | Uchel | Isel | Isel | Isel |
| Gwasanaethau ariannol | Isel | Isel | Isel | Isel | Uchel | Isel | Isel | Isel - Canolig |
| Bwyd a diod* | Canolig | Canolig | Isel | Canolig | Uchel | Isel | Isel | Isel |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Canolig | Isel | Isel - Canolig | Canolig | Isel - Canolig | Uchel | Isel - Canolig | Isel - Canolig |
| Yswiriant | Isel | Isel | Isel | Isel | Canolig - Uchel | Isel | Isel | Isel - Canolig |
| Cynnyrch a gwasanaethau meddygol/iechyd | Isel - Canolig | Canolig - Uchel | Canolig | Isel | Canolig | Uchel | Isel - Canolig | Canolig |
| Gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch arall | Canolig - Uchel | Canolig | Canolig | Isel | Isel - Canolig | Isel - Canolig | Uchel | Canolig - Uchel |
| Papur, pren, cynhyrchion pren | Isel | Isel | Isel | Isel | Canolig | Isel | Canolig | Isel - Canolig |
| Prosesu a chemegion | Uchel | Isel | Canolig | Isel | Canolig - Uchel | Isel | Canolig - Uchel | Isel - Canolig |
| Dur | Uchel | Isel | Canolig | Isel | Uchel | Isel | Canolig - Uchel | Canolig |
| Cynhyrchu teledu a chreadigol | Isel | Isel | Isel | Isel - Canolig | Canolig | Isel | Isel | Isel |

* Roedd rhan fwyaf y cwmnïau bwyd a diod a gafodd eu cyfweld yn canolbwyntio ar y farchnad ddomestig. Mae'n bosibl bod rhannau o gynhyrchu cynradd y sector bwyd a diod yn gweld mwy o effaith na'r rhwystrau di-dariff.

Yn ogystal â'r sectorau a grybwyllwyd uchod rydym yn credu bod nifer o feysydd eraill sydd angen eu hystyried yn benodol.

### Yr Economi Adnoddau Naturiol

Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yng Nghymru, trwy Grŵp Bord Gron y Gweinidogion ar Brexit ac is-grŵp Masnach a'r Gadwyn Cyflenwi, i ystyried effeithiau amrywiol senarios, gan gynnwys 'dim dêl' a rhyddfrydoli masnach, ar economi adnoddau naturiol Cymru.

Rydym yn ystyried risg y senario 'dim dêl' yn fwy tebygol ar gyfer cynnyrch amaethyddol neu bysgodfeydd na nwyddau eraill, oherwydd fel arfer dyma'r maes mwyaf trafferthus ar gyfer Cytundebau Masnach Rydd. Nid yw nifer o gytundebau presennol yr UE gyda thrydydd gwledydd, yn nodedig Cytundeb yr AEE, yn cynnwys amaethyddiaeth ac nid yw'r trefniant tollau gyda Thwrci yn cynnwys cynnyrch amaethyddol na physgodfeydd chwaith. Mae'r adroddiad FAPRI-UK[12] yn ystyried senarios 'dim dêl' (mesurau rhagosodedig Sefydliad Masnach y Byd) a rhyddfrydoli masnach unochrog (eithafol) a daethpwyd o hyd i effeithiau niweidiol ar bob un o'r nwyddau amaethyddol a ystyriwyd yn achos yr olaf.

Mae'r safbwyntiau ehangach ynghylch senario 'dim dêl' yn cynnwys:

- buasai effaith gyflym ar allforion cig oen, yn sgil tariffau ar allforio darnau o gig oen â gwerth is a chig oen 'ysgafn' i'r UE, gan olygu bod y fasnach hon yn dod i ben.
- Buasai effaith ddifrifol ar y 90% o'r cynhyrchion pysgod cregyn sy'n cael eu hallforio i'r UE. Gan mai marchnad ddomestig gyfyng sydd ar hyn o bryd i'r mathau yma o bysgod, byddai effaith ddifrifol gyflym ar y posibiliadau i fusnesau pysgota barhau i weithredu.
- Ailstrwythuro sylweddol o fewn y sector prosesu bwyd wrth i fusnesau geisio gostwng niferoedd a symiau cynhwysion a chynnyrch sy'n croesi ffiniau ar sawl achlysur.

### Gwasanaethau

Gall fod yn arbennig o anodd rhyddfrydoli masnach mewn gwasanaethau, o ystyried y cymhlethdodau rheoleiddiol a'r sensitifrwydd gwleidyddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau. Nid yw Marchnad Sengl yr UE hyd yn oed wedi llwyr ryddfrydoli masnach mewn gwasanaethau. Mae yna gysylltiad agos rhwng y diwydiant gwasanaethau yng Nghymru a masnach mewn nwyddau. Er enghraifft, mae gwasanaethau ariannol, ymgynghori, hysbysebu a gwasanaethau cyfreithiol oll yn gysylltiedig â masnach mewn nwyddau i ryw raddau. Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn sector allforio pwysig sy'n cynhyrchu gwarged masnach sylweddol ar gyfer y DU.



**90%**
**o'r pysgod cregyn sy'n cael eu dal yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r UE**

Er bod Cymru wedi arbenigo llai yn y maes masnach mewn gwasanaethau, byddai effeithiau anuniongyrchol i economi Cymru pe na fyddai'n bosibl cynnal yr un lefel o fasnach mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Yr hyn sydd hefyd yn bwysig yw bod cysylltiadau pwysig rhwng sicrhau bod cysondeb ym maes rheoleiddio a rhyddid i bobl symud er mwyn hwyluso masnach mewn gwasanaethau. Fel a amlinellwyd yn ein cyhoeddiad *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl*, rydym yn argymell dull hyblyg o fudo – ond wedi'i reoli – sydd â mwy o gysylltiad â chyflogaeth. Mae'n rhaid i hyn gyd-fynd â gweithredu trylwyr i sicrhau nad yw gweithwyr yn cael eu camddefnyddio gan gyflogwyr diegwyddor, er mwyn gwella cyflogau ac amodau i bob gweithiwr.

[12] www.afbini.gov.uk/sites/afbini.gov.uk/files/publications/FAPRI-UK%20Brexit%20Report%20-%20FINAL%20Clean.pdf

# Astudiaeth Achos : Cynhyrchwyr Caws o Gymru

Mae'r profiad cyfredol o allforio i wledydd Undeb Tollau yr UE yn syml iawn - yr un fath â chymryd archebion a chyflenwi yn y DU. Mae ganddynt archebion wythnosol niferus gan gwsmeriaid ledled yr UE. O gymharu, cymerodd 4 mlynedd i gael y cynnyrch wedi'i gofrestru yn un o'r gwledydd y tu allan i'r UE (er enghraifft, roedd yn rhaid i'r cŵyr sy'n cael ei ddefnyddio ar y caws gael ei gofrestru gyda'r awdurdodau).

Mae'n rhaid iddynt gynnwys amrywiol waith papur ar gyfer cludiant i wledydd nad ydynt o fewn yr UE:

- **Tystysgrif Iechyd**
- **Tystysgrif Tarddiad**
- **Tystysgrif Gweithgynhyrchu**
- **Anfoneb Fasnachol**
- **Rhestr Bacio**
- **EAD (Cofnod Tollau) - Dogfen Cysylltiedig â'r Allforio - i symud nwyddau drwy wlad o fewn yr UE i gyrchfan mewn trydydd gwlad.**
- **Mae gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE a rhai rhanbarthau o fewn yr UE yn gofyn am Adroddiad COA / Tystysgrif Dioxins i gyd-fynd â phob cludiant gan eu bod yn cael eu harchwilio gan eu hawdurdodau lleol.**

Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid profi nwyddau sy'n cael eu cludo am amrywiol bacteria, gwenwyn, plaladdwyr, gwrthfiotigau a hormonau. Hefyd, er enghraifft, mae Canada yn farchnad fwy cymhleth o ran cydymffurfio â'r angen am labelu dwyieithog ar y pecynnu (Ffrangeg a Saesneg), gyda maint font penodol.

Maent wedi gweld bod oedi yn aml wrth groesi ffiniau, gyda'r cynnyrch yn gorfod aros am wythnos. Nid yw'r oedi oherwydd bod rhywbeth o'i le ar y gwaith papur, dim ond bod Awdurdodau'r Tollau wedi penderfynu gwirio ar hap. Mae'r oedi yma wedi golygu bod effaith ar gostau ac mae'n cael effaith ar faint y mae'r nwyddau yn para. Enghreifftiau o'r mathau o gostau y gellid eu cael:

- Llwytho cynhwysydd - dim ond **3 awr AM DDIM** sydd gennych.
- Cymeradwyo bil – mae'n rhaid i bob bil gael ei gymeradwyo o fewn **48 awr** i ddyddiad hwylio y llong.

  Wedi hynny, codir tâl o **£50 am bob cais** i newid.
- Gall taliadau storio mewn porthladdoedd amrywio, cost ar gyfartaledd o – **£100 y diwrnod.**
- Cludiant ar gyfer nwyddau yn yr awyr yn amrywio, cost ar gyfartaledd yn **£10/y darn y dydd.**

Un o'r prif bryderon yw y cynnydd posibl yn y biwrocratiaeth a allai godi o ganlyniad i os/pryd y bydd y DU yn tynnu allan o Undeb Tollau yr UE. Maent ar hyn o bryd yn cyflogi gweinyddwr allforio llawn amser i ddelio gyda dogfennaeth allforio ar gyfer allforion y cwmni i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Tollau. Fodd bynnag, o ystyried lefel a pha mor aml y daw archebion o wledydd yr Undeb Tollau, ni fyddai hyn yn ddigon i ddelio â'r gwaith papur ychwanegol pe na fyddai cysoni rhwng systemau y tollau a phe byddai masnachu heb rwystrau yn cael ei ddileu.

Mae ystyriaeth bellach yn gysylltiedig ag allforion i Asia a'r Môr Tawel/Awstraliad. Caiff cludiant y DU ei gydgrynhoi yn Ffrainc ar gyfer y daith ymlaen i Asia a'r Môr Tawel. Byddai'r ffaith bod y DU yn tynnu allan o'r Undeb Tollau yn golygu y byddai'n rhaid iddynt lenwi dogfennaeth allforio ar gyfer Ffrainc ac ar gyfer y daith ddilynol i'r gyrchfan.

Mae mynd yn ôl i dariffau Sefydliad Masnach y Byd hefyd yn bryder iddynt - deall pa dariffau/cwotâu sydd ar gyfer pob gwlad, a beth yw'r goblygiadau ar gyfer cynhyrchwyr caws yng Nghymru.

Canada yw un o farchnadoedd allforio pwysicaf y cwmni ac mae hyn mewn perygl gyda'r DU yn dod allan o'r UE. Daw mynediad i farchnad gaws Canada fesul cwota, gyda chwota yn cael ei neilltuo i'r UE a gweddill aelodau Sefydliad Masnach y Byd. O dan gytundeb Canada a'r UE, caiff mwy o gwota ei roi i'r UE (2/3) gyda 1/3 ar gyfer gweddill gwledydd Sefydliad Masnach y Byd. Felly os bydd y DU yn mynd yn ôl i delerau Sefydliad Masnach y Byd, byddai llai o gwotâu caws ar gael i gyflenwyr y DU, gan eu cynnwys hwy.

## Y prif flaenoriaeth iddynt:

- **Cadw mynediad i Undeb Tollau yr UE** a nwyddau i symud yn rhydd drwy fasnach di-dariff a ffiniau heb rwystrau â'r UE.
- **Deall yr effaith ar y cwotâu caws a chadw mynediad i ddyraniad yr UE** or ran cytundeb Canada-UE.
- **Lleihau baich y biwrocratiaeth ar BBaChau** trwy gadw at fynediad i'r Undeb Tollau wedi'i symleiddio, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sy'n golygu trafodiadau rheolaidd â gwledydd Undeb y Tollau, ond efallai na fyddai gwerth uchel i'r trafodiadau hynny.

Gallai goblygiadau gadael yr UE (yn enwedig heb drefniadau pellach) arwain at effaith sylweddol ar economi Cymru. Gallai ddod yn amlwg wrth i effeithiau uniongyrchol lleihau'r gwariant ar ymchwil a datblygu ddod yn amlwg yn yr economi, gan gael effaith negyddol ar fuddsoddiad a chynhyrchiant yn gyffredinol. Mae sefydliadau addysg uwch Cymru'n elwa ar y cronfeydd ymchwil y mae ganddynt fynediad atynt o ganlyniad i'n haelodaeth o'r UE, a Horizon 2020 yw'r pwysicaf o'r rhain. Gallai cael ein cau allan o'r ymchwil cydweithredol hwn gael effaith uniongyrchol ar allu Cymru i gynnal cwmnïau newydd a'u denu, ac i ddatblygu diwydiannau newydd. Er enghraifft, mae'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ne-ddwyrain Cymru wedi tyfu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiadau mewn adeiladau, offer ac, yn hanfodol, talent o'r radd flaenaf mewn ymchwil a ddenwyd i Gymru. Cefnogwyd y buddsoddiadau hyn, fel y rhai mwy diweddar yn yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gydag arian o'r UE. Gallai tynnu nôl o'r Undeb Ewropeaidd hefyd gael effaith ar allu prifysgolion a cholegau Cymru i ddenu staff a myfyrwyr o wledydd eraill sy'n aelodau (daw 11% o staff a 6% o fyfyrwyr y sefydliadau hyn o'r UE ar hyn o bryd). Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cyfyngu ar argaeledd staff medrus iawn sy'n gweithio yn y DU ac mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar dwf a safonau byw.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae GIG Cymru a sefydliadau iechyd yn dibynnu ar gynhyrchion, arloesi, staff a diwydiannau y gallai'r cam o adael yr UE danseilio'u lle yng Nghymru. Rydym yn arbennig o bryderus lle gallai hyn effeithio ar argaeledd nwyddau, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol.

Buasai gadael heb ddêl, gyda'r posibilrwydd o dariffau a rhwystrau di-dariff, yn achosi problemau i GIG Cymru. Byddai risg o darfu ar gyflenwadau cynhyrchion meddygol a phosibilrwydd o gynnydd ym mhris cyffuriau, a fyddai'n cymhlethu heriau ariannol presennol. Gallai danseilio'n ddifrifol allu sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i barhau i ddarparu'r gofal gorau ar gyfer cleifion.

Mae sector gwyddorau bywyd ffyniannus o fudd sylweddol i GIG Cymru, ac mae'n helpu creu amgylchedd i staff ymgysylltu â thechnoleg newydd, ymchwil ac arloesi mewn gwasanaethau. Mae'r sector gwyddorau bywyd yn un o'r diwydiannau mwyaf arloesol yng Nghymru ac yn un o'r diwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae'n cyflogi dros 11,000 o bobl mewn dros 350 o gwmnïau ac yn cyfrannu tua £2 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Gallai methu â sicrhau trefniadau masnach a chydweithredu digonol gyfyngu ar dwf yn y sector hwn, arafu mynediad at y triniaethau diweddaraf yn y GIG a niweidio ymchwil meddygol mewn sawl ffordd.

Wrth i drafodaethau fynd yn eu blaen ar gytundebau masnach newydd, rydym eisiau sicrhau ein bod yn cadw rheolaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel y GIG. Croesawn ymrwymiad Llywodraeth y DU yn hyn o beth y eu papur gwyn, ac rydym yn barod i weithio gyda nhw i sicrhau yr adlewyrchir y dulliau gwahanol o ddarparu gofal iechyd ar draws y DU mewn cytundebau newydd.

## Trafnidiaeth

Mae porthladdoedd Cymru'n chwarae rhan sylweddol iawn ym mywyd masnachol Cymru, ac yn gwasanaethu amrywiaeth eang o farchnadoedd arbenigol a chyffredinol. Maent yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi ehangach y DU, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ac yn borth at hybiau economaidd yng Ngweriniaeth Iwerddon, y DU, gweddill Ewrop a'r byd ehangach.

Roedd cyfran porthladdoedd Cymru o gyfanswm y nwyddau a gludwyd yn y DU yn ystod 2016 yn 53.5 miliwn tunnell (Mt) – tua 11% o gyfanswm y DU. Aeth 524,000 o lorïau ac ôl-gerbydau heb gerbyd tynnu yn ôl ac ymlaen i Weriniaeth Iwerddon trwy borthladdoedd Cymru, â'r mwyafrif helaeth ohonynt drwy Gaergybi.[13]

Y mater pwysicaf i borthladdoedd Cymru yw diogelu'r gallu i symud nwyddau a phobl yn effeithlon, trwy drefniadau tollau di-dor sydd heb fod yn fwy beichus na'r drefn bresennol o dan yr Undeb Tollau, o leiaf. Rydym eisoes wedi nodi'r bygythiad yn sgil unrhyw newidiadau i reolau tollau sy'n ychwanegu at gostau, amser, anghyfleustra a rheoleiddio, i economi Cymru.



**524,000 o lorïau wedi mynd drwy borthladdoedd mawr yng Nghymru yn ôl ac ymlaen o Weriniaeth Iwerddon** yn 2016**

Mae gan borthladdoedd Cymru rôl allweddol fel y porth rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop, gyda 80% o'r nwyddau sy'n cael eu cludo mewn Cerbydau Nwyddau Trwm cofrestredig rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn pasio trwy borthladdoedd Cymru. Rhaid bod Llywodraeth y DU yn dryloyw ynghylch sut y mae polisi masnach annibynnol yn gydnaws â chynnal 'ffin feddal' llyfn rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru'n llwyr gefnogi ffin feddal, ond ni allwn gefnogi unrhyw ganlyniad y mae'n bosibl y bydd yn cymell traffig i ffwrdd oddi wrth borthladdoedd Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro, o blaid rhan arall o'r DU.

## Deliau masnach newydd

Eisoes, rydym wedi dweud mai ein hymagwedd at fasnach ryngwladol yw blaenoriaethu mynediad at Farchnad Sengl yr UE ac mewn undeb tollau, am y tro beth bynnag, gan mai dyma lle y gwneir y mwyafrif o fasnach Cymru. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth argyhoeddiadol hyd yn hyn i awgrymu bod gadael y trefniant undeb tollau gyda'r UE i fynd ar drywydd deliau masnach gyda thrydydd gwledydd, er budd economaidd tymor byr na thymor canolig Cymru a'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru'n llwyr gefnogi buddion masnach ryngwladol. Gwlad fechan, fentrus yw Cymru, ac mae'n wlad sy'n masnachu'n fyd-eang. Rydym wedi ymrwymo i ryngwladoliaeth. Nid yw economïau a phatrymau masnachu byd-eang yn aros yn yr unfan, ac mae patrymau gwario pobl yn newid gydag amser. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yn llwyr fod cyfleoedd masnachu pwysig tu allan i Ewrop ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda busnesau i hyrwyddo Cymru o amgylch y byd. Serch hynny, ni ddylid mynd ar drywydd y cyfleoedd masnach hyn ar draul ein perthynas fasnachu gyda'n cymdogion agosaf a mwy economaidd integredig. Dylid gweld y cam o adeiladu perthnasoedd masnachu gyda gwledydd eraill o amgylch y byd fel cam sy'n mynd law yn llaw â'r berthynas â'r UE ac nid cam sy'n cymryd lle'r berthynas honno.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda diwydiant, gartref a thrwy ei rhwydwaith o swyddfeydd ar draws y byd, i gefnogi'r cysylltiadau hyn gyda gweddill y byd.

[13] www.britishports.org.uk/system/files/documents/welsh_ports_brochure.pdf
** mae'r ffigur hwn yn cynnwys ôl-gerbydau heb gerbyd tynnu

Os bydd Llywodraeth y DU mewn sefyllfa i drafod deliau masnach rydd yn ffurfiol gyda gwledydd eraill, yna bryd hynny mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'n budd uniongyrchol yn y trafodaethau masnach gael ei barchu, yn enwedig o ystyried y ffaith fod gan y rhain ganlyniadau pwysig i feysydd datganoledig megis amaethyddiaeth, pysgodfeydd a datblygu economaidd.


Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru y cyfle i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar fandadau trafod yr UE ar Gytundebau Masnach Rydd newydd gyda'r UE, i sicrhau y caiff buddion Cymru eu hamddiffyn. Byddai'n atgas petai gennym lai o gyfle ar ôl Brexit i sicrhau nad yw polisi masnach yn cael effaith niweidiol ar feysydd datganoledig.



**Yr Almaen**

**yw'r gyrchfan allforio fwyaf ar gyfer nwyddau o Gymru yn 2016**

Ein dymuniad yw gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan y DU ymagwedd gydlynol at fasnach. Fel rhan o'r broses hon, rhaid i Lywodraeth y DU barchu datganoli a pheidio â cheisio arosod polisi sy'n torri ar draws meysydd datganoledig. Bydd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sicrhau nad yw diwydiannau Cymru, na'i defnyddwyr, dan anfantais annheg o ganlyniad i gytundebau masnach rydd gyda thrydydd partïon.



**UDA**

**prif gyrchfan y tu allan i'r UE ar gyfer nwyddau o Gymru yn 2016**

Yn ei Bapur Gwyn ar Fasnach, ac yn nes ymlaen yn y Bil Masnach, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i geisio parhad yn ei pherthnasoedd masnachu presennol sy'n dod o dan gytundebau masnach rydd trydydd gwlad yr UE a threfniadau eraill yr UE. Buaswn yn annog Llywodraeth y DU i beidio ag ymgymryd â'r ymarfer hwn ar barhad ar ei phen ei hun, ac i weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig.

Yn aml, mae'n cymryd amser hir i drafod Cytundebau Masnach Rydd, maent yn gymhleth iawn ac yn sensitif yn wleidyddol, ac nid dyma'r unig ffordd o wella perthnasoedd masnachu. Bydd pwysigrwydd diplomyddiaeth a meithrin perthnasoedd yn flaenoriaeth yn ein hymagwedd at bolisi masnach yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig gydweithio i wella perthnasoedd masnachu ar draws y byd a darparu cymorth i fusnesau Cymru a'r DU gydag allforio.

## Unwaith fyddwn ni'n gadael yr UE, bydd arnom angen cydweithredu dyfnach a mwy parhaus rhwng gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU, a bydd arnom angen yr un cydweithredu mewn perthynas â masnach hefyd

Rydym wedi galw am sefydlu Cyngor Gweinidogion y byddai ei gylch gorchwyl yn cynnwys ymgynghori ar faterion masnach rhwng y pedair gweinyddiaeth ddatganoledig.

Yn y cyfamser, dylid sefydlu cyd-bwyllgor Gweinidogion newydd ar Fasnach Ryngwladol i gytuno ar gyd-ymagweddau at fasnach.

Wrth i ni adael yr UE rhaid i ni ddatblygu ffyrdd newydd o weithio rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig i sicrhau cyfanrwydd marchnad fewnol y DU ac ymagwedd gydlynol at fasnach ryngwladol sy'n parchu cymhwysedd datganoledig. Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein dogfen *Brexit a Datganoli*, cynigiwn sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU i gryfhau'r broses o ddod i benderfyniadau a chydweithio, ac i oruchwylio materion sy'n torri ar draws meysydd cadw a meysydd datganoledig. Fel mesur interim, cynigiwn Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol. Buasai hwn yn darparu fforwm ar gyfer trafod materion yn ymwneud â masnach a dod i gonsensws arnynt.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Masnach sy'n ceisio sicrhau parhâd busnesau a defnyddwyr mewn nifer o feysydd pwysig megis bod yn aelodau o Gytundeb Caffael y Llywodraeth (mae'r DU yn elwa o hyn ar hyn o bryd yn ei chapasiti fel aelod-wladwriaeth yr UE) a Chytundebau Masnach Rydd sy'n cael eu llofnodi gan yr UE yn ystod y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Trethu a Masnachu Traws-ffiniol i sefydlu system dollau annibynnol ar gyfer y DU.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Prydain yn cydnabod swyddogaeth Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu y polisi masnach yn y dyfodol, a'i roi ar waith; fodd bynnag mae'r Bil Masnach yn creu pwerau i Weinidogion y DU lunio rheoliadau ar faterion lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fel yr ydym eisoes wedi nodi mewn ymateb i'r Bil Hysbysu am Ymadael â'r UE, dylai'r pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Llywodraeth y DU i lunio is-ddeddfwriaeth o fewn meysydd datganoledig gael eu defnyddio ond wedi derbyn cydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru. Roedd y Papur Gwyn ar Fasnach yn awgymru y byddai Gweinidogion y DU yn sicrhau cydsyniad o'r fath gan Lywodraethau Datganoledig, ac rydym o'r farn y dylid cynnwys hynny o fewn y Bil. Hefyd, fel mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae amrywiol gyfyngiadau wedi'u gosod ar ddefnydd Gweinidogion Datganoledig o'r pwerau y darperir ar eu cyfer yn y Bil, nad ydynt yn cael eu gosod ar Weinidogion y DU. Rydym yn credu, fel mater o egwyddor, y dylai Gweinidogion datganoledig gael yr un pwerau o fewn meysydd sy'n syrthio o fewn cymwyseddau datganoledig â'r rhai sy'n cael eu rhoi i Weinidogion y DU mewn meysydd sydd heb eu datganoli.

Awgrymwn y dylai fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig ar bolisi masnach, gan gynnwys y canlynol, o leiaf:

1. Dull ffurfiol o ymgysylltu â Llywodraethau Datganoledig ynghylch materion masnach.
2. Egwyddorion ymgysylltu:
   - Llywodraeth y DU i ymgynghori â Llywodraethau Datganoledig a cheisio'u caniatâd wrth ddatblygu Polisi Masnach ar gyfer y DU.
   - Llywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraethau Datganoledig ar fframwaith ar fasnach.

- Llywodraeth y DU i ymgynghori â Llywodraethau Datganoledig ynghylch y mandad ar gyfer trafodaethau, cyn bod unrhyw drafodaethau'n dechrau gyda'r UE a thrydedd gwlad.
- Llywodraeth y DU i ymgysylltu â'r Llywodraethau Datganoledig yn ystod y trafodaethau – lle mae trafodaethau'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig neu faterion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru neu wledydd datganoledig eraill.
- Llywodraeth y DU i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig ar ôl dwyn y trafodaethau i fwcl.

3. Datblygu egwyddorion trosfwaol ar gyfer polisi masnach:
   - Datblygu cynaliadwy, cynnal amddiffyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol pwysig.
   - Cefnogi ffyniant a llesiant i bawb, gan gynnwys llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
   - Tryloywder a thegwch.
   - Dull yn seiliedig ar dystiolaeth.
   - Hybu ac amddiffyn ein lle yn y byd, gan gydnabod ein cyfrifoldebau ar lwyfan y byd a hybu masnach deg a moesegol.

Yn gyfnewid, mae Llywodraeth Cymru'n addo:

1. Bod yn bartner adeiladol.
2. Rhannu gwybodaeth a dadansoddiad.
3. Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer rhanddeiliaid priodol.
4. Gweithio'n adeiladol gan ddefnyddio'n rhwydweithiau tramor i hybu buddion Cymru a'r DU yn ehangach, a'u gwarchod.

Model defnyddiol ar gyfer ymgysylltu ar ddeliau masnach yw'r un a ddefnyddir gan y Llywodraeth Ffederal yng Nghanada. Mae'r llywodraeth ffederal yn gyfrifol am drafod deliau masnach ar ran Canada ond ceir ymgynghori manwl gyda thaleithiau Canada cyn i'r trafodaethau masnach ddechrau, ac yna yn ystod y trafodaethau, bydd cynrychiolwyr y taleithiau'n bresennol i gyfrannu wrth i'r trafodaethau ddatblygu. Cafodd taleithiau Canada eu cynnwys o fewn trafodaethau ar y Gytundeb Economaidd a Masnachol Gynhwysfawr (CETA) rhwng Canada a'r Undeb Ewropeaidd oherwydd y pwyslais a roddodd yr Undeb Ewropeaidd ar hyn[14].

---

**Rydym wedi gosod cynsail mewn blynyddoedd diweddar, lle mae'r taleithiau'n chwarae rhan uniongyrchol yn y trafodaethau. Maent yn rhan o'r broses baratoi, a phan fyddwn yn dechrau ar drafodaethau, gallai cynrychiolwyr taleithiau sydd â budd fod tu allan i'r ystafell. Unwaith fydd y trafodaethau ar gyfer y sesiwn honno wedi dod i ben, bydd ein prif drafodwr ar bwnc penodol yn eu briffio. Mae'n broses sy'n cymryd llawer o amser, ond yn ein hachos ni mae'n angenrheidiol am resymau gwleidyddol – yn ogystal â'r ffaith fod rhai o'r materion sy'n cael eu trafod yn dod o dan awdurdod y taleithiau i'w gweithredu.**

Dyfyniad gan gyn ddirprwy-Weinidog Canada dros fasnach (adroddiad gan Institute for Government, o'r enw *Taking Back Control of Trade*[15]

[14] Sub-national government involvement in international trade negotiations Wales Centre for Public Policy, Craig Johnson and Megan Mathias
[15] **www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/IFGJ5448_Brexit_report_160517_web_v2.pdf**

# Cymru yn y Byd

## Hybu lle Cymru mewn byd sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang, yw craidd ein strategaeth ryngwladol. Ein nod yw amddiffyn ein cyfran o fasnach Ewropeaidd er gwaethaf yr ansicrwydd a grëwyd yn sgil Brexit.

Mae Cymru'n wlad sy'n wynebu tuag allan ac mae'n ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu ar lefel fyd-eang gyda gwledydd eraill, yn enwedig mewn meysydd lle mae gennym fuddion cyffredin, megis datblygu economaidd, cysylltiadau diwylliannol tebyg a chysylltiadau addysgol. Mae hybu lle Cymru mewn byd sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang wrth graidd ein strategaeth ryngwladol. Mae gwasanaethau'n agwedd ar allforion Cymru sy'n tyfu, a lle na fu digon o bwyslais arnynt yn y gorffennol, maent nawr yn rhan greiddiol o'n huchelgais. Mae Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor wedi bod yn elfen bwysig o'n heconomi ers 50 mlynedd a byddwn yn parhau i ymgysylltu a denu buddsoddwyr i Gymru mewn amgylchedd byd-eang sy'n mynd yn fwy a mwy cystadleuol. Mae Cymru'n darparu amgylchedd o'r radd flaenaf o ran buddsoddi, gweithio, ymweld ac astudio.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal rhwydwaith o swyddfeydd tramor i hyrwyddo'n buddion rhyngwladol. Mae ein swyddfeydd yn cyfrannu at weithgarwch Llywodraeth Cymru mewn masnach a buddsoddi, twristiaeth, diwylliant ac addysg. Mae'r swyddfeydd hyn yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd, yn hwyluso ymgysylltiad i ddatblygu busnes mewn cydweithrediad â chydweithwyr yng Nghymru, ac yn gweithio gyda'r rheiny sydd wedi symud o Gymru a chydweithwyr yn y DU i hyrwyddo'n buddion economaidd.

Yng ngolau Brexit ac ansicrwydd ynghylch masnach, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn hyrwyddo buddion Cymru o gwmpas y byd. Ar hyn o bryd, mae gennym 15 swyddfa ar draws saith gwlad: Gwlad Belg; Tsieina; India; Iwerddon; Japan; yr Emiraethau Arabaidd Unedig; ac Unol Daleithiau America. Rydym yn adolygu'n rhwydwaith tramor a byddwn yn ehangu ein hôl troed rhyngwladol yn ystod y weinyddiaeth hon yn unol ag ymrwymiad *Ffyniant i Bawb* i 'weithio mewn ffordd strategol i ehangu'n swyddfeydd rhyngwladol, gan wneud hynny ar sail cyfleoedd economaidd sydd ar gael i fusnesau Cymru'. Agorir swyddfeydd pellach yn Ffrainc, yr Almaen, Canada a Qatar yn ystod 2018.


Bydd ein rhaglen o ddigwyddiadau tramor yn gyrru gweithgarwch craidd. Byddwn yn ei chyhoeddi'n flynyddol a bydd yn galluogi cwmnïau i deithio i farchnadoedd i gwrdd â chwsmeriaid neu i ymgysylltu trwy arddangosfeydd a sioeau masnach. Mae'n cynnwys cyfuniad o farchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg y gall fod yn fwy heriol cael mynediad atynt, yn ogystal â marchnadoedd mwy traddodiadol lle mae yna lai o rwystrau i gwmnïau Cymru eu goresgyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n berchen ar Faes Awyr Caerdydd ac yn gweithio'n agos i gefnogi cynlluniau'r Maes Awyr i ehangu'r dewis o hediadau o Gaerdydd. Bydd yn agor Cymru i fyny fwy i dwristiaeth a busnes. Bydd yr hediadau rhwng Caerdydd a Doha, sydd wedi'u hamserlennu o fis Mai 2018, yn agor i deithio pellteroedd hir i lefydd tua'r dwyrain, mewn ffordd newydd a deinamig.

Byddwn yn ysgogi ac yn cefnogi rhaglen o ymweliadau mewnol – rhai diplomyddol a rhai masnachol – i hyrwyddo dealltwriaeth gliriach o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Ein nod trwy wneud hyn yw ysgogi diddordeb ymhlith y rheiny sy'n penderfynu neu'r rheiny sydd mewn sefyllfa i hybu diddordeb yng Nghymru.

Mewn blynyddoedd diweddar, cyrhaeddodd ein canlyniadau mewnfuddsoddi lefelau nas gwelwyd o'r blaen. Serch hynny, gwelwyd gostyngiad mewn atgyfeiriadau ar yr un pryd â phleidlais Brexit, ac o ganlyniad gwelwyd disbyddiad prosiectau mewnfuddsoddi. Rydym wedi dechrau ar ymagwedd newydd at weithgarwch mewnfuddsoddi a masnach wedi'i thargedu, gan ganolbwyntio ar sectorau strategol yn y marchnadoedd cyfredol, lle mae gennym bresenoldeb tramor, ac ar yr un pryd yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer marchnadoedd newydd. Rydym wedi defnyddio data hanesyddol ar fewnfuddsoddi ac allforio, ac rydym wedi adnabod tueddiadau yn y sector mewn marchnadoedd penodol. Byddwn yn targedu buddsoddwyr pwysig ym mhob un o'r marchnadoedd hyn. Byddwn hefyd yn defnyddio'r dull newydd hwn o gynllunio busnes i oleuo'n rhaglen o ddigwyddiadau tramor a phenderfyniadau'n ymwneud â'n cymorth wedi'i dargedu ar gyfer allforwyr.

# Atodiad A: Tariffau Awgrymedig Potensial Sefydliad Masnach y Byd ar allforion rhwng y DU a'r UE fesul cynnyrch %




Working Paper no.550, The Product and Sector Level Impact of a Hard Brexit across the EU Martina Lawlessa,b and Edgar L. W. Morgenroth*, Tachwedd 2016

# Atodiad B: Masnach Ryngwladol Cymru

## Pwysigrwydd marchnadoedd rhyngwladol i Gymru

Mae allforion rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru, ac mae mewnforion yn ffynhonnell ar gyfer mewnbynnau i fusnesau a nwyddau i ddefnyddwyr.

Serch hynny, os bydd trefniadau masnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd yn cyfyngu ar fynediad y Deyrnas Unedig i'r Farchnad Sengl, mae'n debygol y teimlir mwyafrif yr effaith ar Gymru yn anuniongyrchol trwy gysylltiadau masnachu Cymru gyda gweddill y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn deillio o'r canlynol:

- cysylltiadau masnachu helaeth iawn sy'n bodoli rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig
- y ffaith fod dadansoddiad yn dangos mai effeithiau pennaf mynediad mwy cyfyngedig at yr Undeb Ewropeaidd fydd canlyniadau anuniongyrchol twf cynhyrchiant is a deimlir ar draws yr economi cyfan
- y canlyniadau cyllidol i Gymru gan fod twf yn arafach yn y Deyrnas Unedig.

Yn benodol, bydd effeithiau pwysig ar sectorau yng Nghymru sy'n allforio'n anuniongyrchol i'r Undeb Ewropeaidd trwy ddarparu mewnbynnau ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu hallforio o weddill y Deyrnas Unedig. Nid oes ystadegau swyddogol ar gael ar fasnach rhwng Cymru a gweddill y DU a dim felly ar allforion 'anuniongyrchol' o'r fath, ond yn ôl bras gyfrifiadau maent yn debygol o fod mor bwysig ag allforion uniongyrchol, o leiaf.

Nod yr Atodiad hwn yw cyflwyno'r ystadegau allweddol ynghylch masnach ryngwladol Cymru, a thynnu sylw at rai o'r prif faterion sy'n codi wrth ddehongli'r data cysylltiedig.

Adlewyrcha'r ystadegau allforio swyddogol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau fesur eang ar gyfer 'allbwn'[1] ac nid 'gwerth ychwanegol'. O ganlyniad, nid yw gwerth uchel ar gyfer allforion yn golygu bod Cymru'n elwa o lefel uchel o werth ychwanegol neu gyflogaeth, o angenrheidrwydd. I osod y cyfan yn ei gyd-destun, fel arfer mae'r gwerth ychwanegol mewn diwydiannau sy'n cynhyrchu, tua chwarter gwerth trosiant.

Fwy na thebyg y ceir yr enghraifft fwyaf eithafol o'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd allforio a gwerth ychwanegol wrth edrych ar allforio petrolewm, sy'n dangos gwerth uchel ond lle mae mewnforion sy'n cael eu hallforio eto, heb fawr ddim prosesu, neu ddim prosesu o gwbl, yn cyfrif am gyfran uchel o'r gwerth hwn.

Er bod gwerth gwasanaethau sy'n cael eu hallforio lawer yn is na nwyddau, fwy na thebyg y bydd cyfran y gwerth ychwanegol a chyflogaeth yn uwch wrth gynhyrchu mwyafrif y gwasanaethau, felly bydd y data yn y penawdau'n dueddol o roi'r argraff nad ydynt mor bwysig. Mae gwasanaethau hefyd yn debygol o chwarae rhan gynyddol bwysig gydag amser, gan fod tuedd gyffredinol ar draws gwledydd datblygedig i'r galw am wasanaethau gynyddu'n gyflymach na nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu, gan adlewyrchu newidiadau yn y patrymau galw wrth i bobl ddod yn fwy cefnog.

[1] Mae gan y gwerthoedd allforio a gofnodir yn yr ystadegau masnachu rhanbarthol ar gyfer nwyddau ddiffiniad ehangach na gwerth gwerthiant – maent yn cwmpasu gwerth nwyddau sy'n croesi'r ffin, hyd yn oed pan na fydd y berchenogaeth wedi newid (er enghraifft lle gwnaed gwaith ailwampio).

## Allforio nwyddau o Gymru

Mewn perthynas â masnach uniongyrchol, mae data ar gael gan CThEM ar nwyddau wedi'u hallforio a'u mewnforio[2].


Mae'r gwaith o baratoi'r data'n golygu rhywfaint o ddosrannu cyfansymiau'r Deyrnas Unedig ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Oherwydd hynny, efallai na fydd y ffigurau'n adlewyrchiad manwl gywir o ddibyniaeth unedau busnes Cymru ar farchnadoedd allforio penodol. Mae hefyd yn golygu y gallai gwerth y data fod yn gyfyngedig wrth oleuo'r broses o weithredu polisïau Llywodraeth Cymru, er enghraifft mewn perthynas ag adnabod segmentau'r farchnad lle gallai fod y mwyaf o botensial ar gyfer hyrwyddo allforion.

Ymhellach, nid yw'r ffigurau ar gyfer gwerthoedd allforio yn adlewyrchu gwerth ychwanegol yng Nghymru. Dyma bwynt allweddol, a chaiff ei esbonio isod. Mae'n golygu bod angen bod yn ofalus iawn cyn dod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith economaidd newid mewn lefelau allforio.

Gall y data ar gyfer allforion hefyd fod yn gyfnewidiol, yn rhannol am fod nifer fechan o fusnesau'n cyfrif am gyfran uchel o allforion Cymru, a gall amseru danfon y nwyddau ddylanwadu ar y ffigurau. Am y rheswm hwn, rhaid trin data ar gyfer un flwyddyn fel data dangosol yn hytrach na data terfynol, a hyd yn oed mwy felly ar gyfer chwarter unigol.

Wrth feddwl am y cafeatau hyn, dangosir tueddiadau diweddar mewn nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru yn Ffigur 1 (tud 6). (O ganlyniad i welliannau methodolegol gan CThEM nid yw'r data ar gyfer y blynyddoedd cyn 2014 mor ddibynadwy â'r data ar gyfer blynyddoedd mwy diweddar.)

**Ffigur B1: Allforion Newyddau Cymru, £m**





[2] www.uktradeinfo.com/Statistics/RTS/Pages/default.aspx

**Ffigur B2: Nwyddau a allforiwyd fesul diwydiant, 2016, %**

Cymru

DU




Gellir gweld o Ffigur B1 fod cyfanswm gwerth nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru i wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na gwerth nwyddau sy'n cael eu hallforio i wledydd tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ac nad oes tuedd gref dros y tair blynedd ddiweddaraf. Yn 2016, roedd nwyddau a allforiwyd i'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 61% o'r cyfanswm, o gymharu â 59% yn 2014.

Dangosir cyfrannau'r categorïau mwyaf o nwyddau a allforiwyd o Gymru yn Ffigur B2, gyda'r Deyrnas Unedig fel cymharydd.

Mae peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth yn arbennig o bwysig i Gymru, er eu bod hefyd yn cynrychioli categori allforion mwyaf y Deyrnas Unedig.

Yn Ffigur B3, isod, ceir dadansoddiad ar lefel fanylach o allforion cynhyrchion nwyddau Cymru sydd â'r gwerth uchaf.

Mae Cymru'n dibynnu mwy ar yr Undeb Ewropeaidd fel marchnad allforio ar gyfer ei nwyddau na'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, fel y dangosir yn Ffigur 1 (tud 6).

Yn Ffigur 3 (tud 9), ceir mwy o fanylder ar gyrchfannau allforio nwyddau Cymru, yn ôl eu pwysigrwydd i Gymru.

Roedd y tair gwlad y mae Cymru'n allforio fwyaf iddynt yn cyfrif am ychydig dros 50% o'r holl allforion yn 2016 (roedd y 10 gwlad y mae Cymru'n allforio fwyaf iddynt yn cyfrif am bron i 80% o'r holl allforion).

## Allforio gwasanaethau o Gymru

Cynhyrchir y data ar allforio gwasanaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sail arbrofol. Yn debyg i fasnach o ran nwyddau, nid yw'r ystadegau hyn yn cynnwys allforion 'anuniongyrchol'.


Dengys Ffigur B4 y gwasanaethau a allforiwyd o Gymru dros y flwyddyn ddiweddaraf, sef 2015, gyda data ar gyfer allforio nwyddau hefyd yn cael ei ddangos i roi cyd-destun.

Dyma'r tri phrif gategori ar gyfer allforio o'r sector gwasanaethau yng Nghymru yn 2015:

- Gwasanaethau gweithgynhyrchu (63%)
- Gwybodaeth a chyfathrebu 16%)
- Eiddo tirol, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (13%).

Yn wahanol i allforio nwyddau, mae tua dau draean o allforion o'r sector gwasanaethau yng Nghymru yn mynd i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

**Ffigur B3: Prif allforion nwyddau, Cymru, 2016, %**




## Nwyddau a fewnforiwyd i Gymru

Mae CThEM hefyd yn darparu data ar fewnforio nwyddau (ond nid oes data ar gael ar fewnforio gwasanaethau).

Dengys Ffigur 4 (tud 10) lefelau allforio a mewnforio ar gyfer pob categori nwyddau yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf, sef, 2016.

Fel gyda'r data ar allforio, ceir y ffigurau trwy ddosrannu'r data ar fewnforio ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r data'n adlewyrchiad manwl gywir o ddibyniaeth unedau busnes Cymru ar fewnbynnau a fewnforiwyd. Ochr yn ochr â rôl allforion a mewnforion 'anuniongyrchol' sydd ar waith trwy lif masnach Cymru gyda gweddill y Deyrnas Unedig, mae hyn yn golygu nad yw'n briodol cymharu allforion a mewnforion Cymru i gyfrifo 'mantol fasnach' i Gymru.

Mae Ffigur B5 a Ffigur 2 (tud 7) yn dadansoddi mewnforion fesul ffynhonnell, ac yn dangos, yn wahanol i allforion, fod Cymru'n fwy dibynnol ar wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd na gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, am ei mewnforion.


## Mewnfuddsoddi

Mae cwmnïau sydd â pherchenogaeth o dramor yn cyfrif am gyfran sylweddol o werth ychwanegol (a buddsoddiad) yng Nghymru. Yn y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael (2015), roedd cwmnïau â pherchenogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cyfrif am ryw 31% o Werth Ychwanegol Gros y sector preifat yng Nghymru – gweler Ffigur B6. Mae hyn ychydig bach yn uwch na'r gyfran ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd (27%).


Mae Cymru wedi perfformio'n dda o ran denu prosiectau mewnfuddsoddi newydd o dramor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf[3].

[3] Data ar gyfer 2015/16:
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550779/DIT_Investment_Results_2015-16_v1_05-09-2016.pdf


## Ffigur B4: Nwyddau a Gwasanaethau a Allforiwyd o Gymru, 2015, £m




## Ffigur B5: Prif ffynonellau mewnforio, Cymru, 2016, %



## Ffigur B6: Cymru – gwerth ychwanegol yn ôl y wlad sydd â pherchenogaeth, 2015




Mae Cymru wedi perfformio'n dda o ran denu prosiectau mewnfuddsoddi newydd o dramor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf[4]. Eto, lefel y mynediad a sicrheir at y Farchnad Sengl yn y pendraw, ynghyd â phwysigrwydd marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd i'r buddsoddwyr dan sylw, fydd yn pennu nerth yr effaith yn y tymor hir. Yn anochel, bydd pwysigrwydd marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd i'r buddsoddwyr dan sylw yn amrywio[5].

Byddai trafodaethau hir yn peri pryder gan y bydd hyn yn creu ansicrwydd, sy'n debygol o rwystro mewnfuddsoddwyr newydd ac atal y rheiny sydd eisoes yn buddsoddi o dramor rhag buddsoddi o'r newydd, neu fuddsoddi eto. Mae modd lliniaru'r effeithiau niweidiol hyn o hyd trwy ddod i gytundeb buan, gyda threfniadau pontio ffafriol.

Gallai gostyngiad yn y mewnfuddsoddiad i Gymru gael effaith niweidiol a sylweddol iawn, ac elfen o bwys yw'r ffaith fod tystiolaeth yn dangos bod cynhyrchiant, a chyflog, yn dueddol o fod yn uwch i bobl a gyflogir mewn busnesau amlwladol. Yn ychwanegol at hyn, mae yna dystiolaeth fod busnesau o'r fath yn creu effeithiau sy'n lledu i lefydd eraill, gan sbarduno gwelliannau mewn cynhyrchiant o fewn cwmnïau cynhenid.

### Goblygiadau masnach ar gyfer ardaloedd gwahanol

Gellid disgwyl i effeithiau mynediad mwy cyfyngedig at farchnadoedd Ewropeaidd, sy'n effeithio ar hyfywedd busnesau o Gymru sy'n allforio, i amrywio o ardal i ardal. Nid yw'r data ar allforion ar gael islaw lefel Cymru gyfan, ond mae'r graddau y mae ardal yn dibynnu ar ddiwydiant gweithgynhyrchu'n debygol o roi lled-awgrym o'i hyglwyfedd. Dengys Tabl B1 gyfran y gweithlu ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector cynhyrchu (sef y diwydiant gweithgynhyrchu yn bennaf).

[4] Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu y gallai aelodaeth o'r UE fod wedi cynyddu Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor yn y Deyrnas Unedig tua 30%: **cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp1453.pdf**

[5] I ddarllen mwy am bwysigrwydd mynediad at Farchnad Sengl yr UE a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar fewnfuddsoddi, gweler: **www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277171/ep7-foreign-direct-investment-trends-manufacturing.pdf**

**Tabl B1:**
**Y gweithlu yn y sector cynhyrchu 2016 (%)**

| | |
|---|---|
| Sir y Fflint | 24 |
| Caerffili | 22 |
| Blaenau Gwent | 21 |
| Wrecsam | 21 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20 |
| Torfaen | 17 |
| Merthyr Tudful | 16 |
| Rhondda Cynon Taf | 15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 14 |
| Casnewydd | 14 |
| Sir Gaerfyrddin | 12 |
| Ynys Môn | 12 |
| Bro Morgannwg | 11 |
| Powys | 10 |
| Sir Fynwy | 9 |
| Sir Ddinbych | 8 |
| Sir Benfro | 7 |
| Caerdydd | 7 |
| Gwynedd | 7 |
| Abertawe | 6 |
| Ceredigion | 5 |
| Conwy | 4 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gallai mynediad mwy cyfyngedig at y farchnad hefyd effeithio ar amaethyddiaeth, yn ogystal â newidiadau i'r system gymorth ar gyfer amaethyddiaeth, gan ddibynnu ar y trefniadau newydd fydd ar waith. Dangosir dibyniaeth berthnasol ardaloedd awdurdod lleol Cymru ar amaethyddiaeth gan y data ar gyflogaeth yn Nhabl B2.

**Tabl B2:**
**Y gweithlu mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, 2015 (%)**

| | |
|---|---|
| Powys | 14 |
| Ceredigion | 13 |
| Sir Benfro | 8 |
| Ynys Môn | 8 |
| Gwynedd | 8 |
| Sir Gaerfyrddin | 6 |
| Sir Fynwy | 4 |
| Sir Ddinbych | 4 |
| Conwy | 3 |
| Sir y Fflint | 3 |
| Bro Morgannwg | 1 |
| Wrecsam | 1 |
| Merthyr Tudful | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 |
| Abertawe | 1 |
| Blaenau Gwent | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 |
| Caerffili | 0 |
| Casnewydd | 0 |
| Rhondda Cynon Taff | 0 |
| Torfaen | n/a |
| Caerdydd | n/a |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er nad oes ystadegau swyddogol, deellir bod gwerth masnach Cymru gyda gweddill y Deyrnas Unedig sawl gwaith yn fwy na gwerth allforion rhyngwladol Cymru. Gellir gweld pa sectorau y mae Cymru'n debygol o fod yn allforiwr (mewnforiwr) net ynddynt i (o) weddill y Deyrnas Unedig trwy edrych ar y graddau y mae Cymru'n gymharol arbenigol ar draws y sectorau. Mae hyn yn gymorth i gynnig rhywfaint o gyd-destun wrth ystyried pa sectorau allai fod yn hyglwyf i ostyngiadau yn y galw o gyfeiriad economi ehangach y Deyrnas Unedig.

**Tabl B3:**
**Arbenigedd fesul sector yng Nghymru (2015)**

**Cyniferoedd Lleoliad fesul Diwydiant Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, Cymru, 2015**

Mwyaf arbenigol

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Gweithgynhyrchu metelau sylfaenol | 3.7 |
| 32 | Gweithgynhyrchu arall | 3.0 |
| 39 | Gweithgareddau adfer a gwasanaethau gwastraff o fath arall | 2.4 |
| 01 | Cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid, hela a gweithgareddau gwasanaethau cysylltiedig | 2.1 |
| 75 | Gweithgareddau milfeddygol | 2.0 |
| 30 | Gweithgynhyrchu cyfarpar arall ar gyfer trafnidiaeth | 1.9 |
| 27 | Gweithgynhyrchu cyfarpar trydanol | 1.9 |
| 38 | Casglu gwastraff, ei drin a'i waredu; adfer defnyddiau | 1.7 |
| 65 | Ariannu yswiriant a phensiynau | 1.7 |
| 33 | Trwsio a gosod peiriannau a chyfarpar | 1.7 |
| 84 | Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1.6 |
| 29 | Gweithgynhyrchu cerbydau modur trelars a hanner-drelars | 1.5 |
| 36 | Casglu, trin a chyflenwi dŵr | 1.5 |
| 21 | Gweithgynhyrchu nwyddau a chymysgeddau fferyllol sylfaenol | 1.5 |
| 02 | Coedwigaeth a thorri coed yn foncyffion | 1.5 |
| 10 | Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd | 1.5 |
| 55 | Llety | 1.5 |
| 20 | Gweithgynhyrchu cemegau a chynhyrchion cemegol | 1.4 |
| 50 | Cludo dŵr | 1.4 |
| 42 | Peirianneg sifil | 1.4 |
| 87 | Gweithgareddau gofal preswyl | 1.4 |
| 17 | Gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur | 1.4 |
| 25 | Gweithgynhyrchu cynhyrchion metel gwneuthuriedig | 1.3 |
| 18 | Argraffu ac atgynhyrchu cyfryngau cofnodedig | 1.3 |

Sylwer: Mae'r ffigur ar gyfer cloddio am lo a lignit wedi'i hepgor o Dabl 3 fel allanolyn am eu bod ar raddfa fach

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Arbenigedd fesul sector yng Nghymru (2015)**

**Cyniferoedd Lleoliad fesul Diwydiant Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, Cymru, 2015**

## Lleiaf arbenigol

| | | |
|---|---|---|
| 81 | Gweithgynhyrchu ar gyfer gwasanaethau adeiladau a thirwedd | 0.7 |
| 78 | Gweithgarwch cyflogaeth | 0.7 |
| 59 | Ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu ayb | 0.7 |
| 64 | Gweithgareddau gwasanaethau ariannol, ac eithrio ariannu yswiriant a phensiynau | 0.7 |
| 82 | Gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cysylltiedig | 0.7 |
| 94 | Gweithgareddau mudiadau ag aelodau | 0.7 |
| 80 | Gweithgareddau diogelwch ac ymchwilio | 0.7 |
| 28 | Gweithgynhyrchu peiriannau a chyfarpar heb eu rhestru'n rhywle arall | 0.6 |
| 74 | Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol arall | 0.6 |
| 69 | Gweithgareddau cyfreithiol a chyfrifyddu | 0.6 |
| 61 | Telegyfathrebu | 0.6 |
| 03 | Pysgota a dyframaethu | 0.5 |
| 52 | Gweithgareddau warws a chymorth ar gyfer cludiant | 0.5 |
| 13 | Gweithgynhyrchu tecstilau | 0.5 |
| 14 | Gweithgynhyrchu dillad | 0.5 |
| 60 | Gweithgareddau rhaglennu a darlledu | 0.5 |
| 66 | Gweithgareddau atodol eraill ym maes ariannu yswiriant a phensiynau | 0.4 |
| 72 | Ymchwil a datblygu gwyddonol | 0.4 |
| 58 | Gweithgareddau cyhoeddi | 0.4 |
| 62 | Rhaglennu cyfrifiadurol, ymgynghoriaeth a gweithgareddau cysylltiedig | 0.3 |
| 95 | Trwsio cyfrifiaduron, nwyddau personol a nwyddau'r cartref | 0.2 |
| 51 | Cludiant awyr | 0.1 |
| 63 | Gweithgareddau gwasanethau gwybodaeth | 0.1 |
| 15 | Gweithgynhyrchu lledr a chynhyrchion cysylltiedig | 0.1 |

Dengys Tabl B3 ardaloedd lle mae Cymru fwyaf a lleiaf arbenigol o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Cynhyrchir y ffigurau hyn trwy gymharu lefelau cyflogaeth fesul diwydiant yng Nghymru gyda lefelau ar draws y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.[6]


## Newid strwythurol yn yr economi

Mae angen asesu effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar allforion Cymru yng nghyd-destun graddfa'r sector berthnasol a'r newid strwythurol sy'n parhau ar raddfa fawr, a fyddai'n effeithio ar gyfansoddiad yr economi hyd yn oed yn absenoldeb Brexit.

Yn Ffigur B7 ceir awgrym o faint cymharol sectorau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael (2015) a'r newid yng nghyfran cyfanswm yr allbwn ar gyfer pob sector, dros y cyfnod ers 1997. Rhestrir y sectorau mewn trefn, o'r sector gyda'r cynnydd mwyaf yn ei gyfraniad at y Gwerth Ychwanegol Gros i'r cyfraniad sydd â'r gostyngiad mwyaf, a dangosir y newid gyda diemwnt. Dangosir cyfraniad pob sector at y Gwerth Ychwanegol Gros yn 2015 gyda bar.

Mae'r newid absoliwt cyfartalog yng nghyfran y sectorau dros y cyfnod ers 1997 yn eithaf sylweddol – dros 20%.

**Ffigur B7: Gwerth Ychwanegol Gros Cymru fesul sector: y newid 1997-2015 a chyfran y cyfanswm 2015**




[6] Dengys y cyniferydd lleoliad ddwysedd cymharol cyflogaeth yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Mae cymhareb o un yn dangos bod gan Gymru yr un gyfran o gyflogaeth yn y sector â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Mae ffigur o ddau, er enghraifft, yn dangos bod gan Gymru ddwywaith gymaint o gyfran o gyflogaeth yn y sector â'r DU, ac mae ffigur o 0.5 yn dangos bod gan Gymru gyfran o'r gyflogaeth sydd hanner cyfran y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Mae ffigurau ar gyfer Mwyngloddio ayb. wedi eu hepgor fel allanolion ac am fod y diwydiant ar raddfa fach.

# Atodiad C: Effeithiau Dewis o Gytundebau Masnach ar ôl Brexit ar Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig: Dadansoddiadau Sector gan ddefnyddio Model FAPRI-UK

Ym mis Awst 2017 cyhoeddodd yr AFBI (Agri-Food and Biosciences Institute) allbynnau modelu economaidd manwl i archwilio effeithiau economaidd posib tair senario masnachu yn dilyn Brexit ar y diwydiant amaethyddiaeth domestig. Yn y nodyn hwn ceir trosolwg o brif ganfyddiadau'r ymchwil hwn a rhai sylwadau ychwanegol. Mae'r adroddiad llawn a gyhoeddwyd ar gael ar: **www.afbini.gov.uk/publications/afbi-report-post-brexit-trade-agreements-uk-agriculture**

## Dull Modelu

Mae system fodelu FAPRI-UK yn defnyddio hafaliadau penodol i gipio'r rhyngberthnasoedd rhwng newidynnau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw ym mhrif sectorau amaethyddiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Roedd y dadansoddiad o'r senarios masnachu posib yn defnyddio fersiwn ddiwygiedig o fodel FAPRI-UK (ar y cyd â model Graen, Had Olew, Da Byw a Chynnyrch Llaeth FAPRI-EU). Roedd y system fodelu ddiwygiedig yn caniatáu cynrychiolaeth fwy priodol o farchnadoedd amaethyddol DU-UE sydd efallai heb eu hintegreiddio'n llwyr ar ôl Brexit (gan adlewyrchu sefyllfa lle gallai'r Deyrnas Unedig fod tu allan i Undeb Tollau a Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd). Nodwyd proses ar wahân ar gyfer pennu prisiau ar gyfer y Deyrnas Unedig, er mwyn dargyfeirio prisiau nwyddau amaethyddol y Deyrnas Unedig i ffwrdd oddi wrth brisiau nwyddau amaethyddol y 27 o wledydd fydd ar ôl yn yr Undeb Ewropeaidd ar ôl ymadawiad y Deyrnas Unedig[1].

Bwriad y tair senario benodol ar gyfer masnachu a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hwn, oedd caniatáu asesiad eang ac enghreifftiol o arffiniau tebygol effeithiau posib dan drefniadau masnachu damcaniaethol cyferbyniol ac arddulliadol ac nid oedd bwriad i adlewyrchu canlyniadau mwyaf tebygol y trafodaethau, o angenrheidrwydd. Yn benodol, mae'r senarios yn adlewyrchu:

i. Cytundeb Masnach Rydd wedi'i Deilwra'n Arbennig gyda'r Undeb Ewropeaidd;

ii. Tariffau Rhagosodedig y Wlad Fwyaf Ffafriol Sefydliad Masnach y Byd;

iii. Rhyddfrydoli masnach unochrog.

Rhestrir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd o fewn pob un o'r senarios hyn yn Nhabl C1.

[1] Nid yw rhai sectorau amaethyddol, er enghraifft siwgr a garddwriaeth, a'r effeithiau ar gynhyrchion bwyd yn fwy cyffredinol, yn dod o fewn cwmpas y dadansoddiad hwn.

**Tabl C1: Crynodeb o'r Senarios Masnachu**

| Cytundeb Masnach Rydd wedi'i Deilwra'n Arbennig gyda'r Undeb Ewropeaidd | Tariff Ragosodedig Sefydliad Masnach y Byd | Rhyddfrydoli Masnach Unochrog |
|---|---|---|
| Costau hwyluso masnach* o 5% ar fasnach rhwng y DU a'r 27 o wledydd sydd ar ôl yn yr EU | Costau hwyluso masnach* o 8% ar fasnach rhwng y DU a'r 27 o wledydd sydd ar ôl yn yr EU | Costau hwyluso masnach* o 8% ar fasnach rhwng y DU a'r 27 gwlad sy'n dal i fod yn yr UE<br>Dim tariffau ar fewnforion i'r Deyrnas Unedig o wledydd yr UE a gweddill y byd |
| Y DU yn cadw mynediad heb dariff a chwota at yr UE a'r UE yn cadw mynediad heb dariff a heb gwota at y DU | Tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar fewnforion o'r UE<br>Cadw Cwotâu Tariff o 3ydd gwledydd<br>Tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar allforion o'r DU sy'n mynd i'r UE | Tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar allforion o'r DU sy'n mynd i'r UE |
| Y DU yn cadw strwythur tariffau'r UE gyda gweddill y byd | Dim newid yn y strwythurau tariffau ar gyfer allforion i weddill y byd | Dim newid yn y strwythurau tariffau ar gyfer allforion i weddill y byd |

* Sylwer: Mae costau hwyluso masnach yn adlewyrchu costau gwiriadau gweinyddol trawsffiniol ychwanegol (er enghraifft Rheolau Tarddiad, archwiliadau i sicrhau iechyd (pobl) anifeiliaid a phlanhigion ac oedi mewn porthladdoedd).

Cymharwyd y senarios hyn yn erbyn gwaelodlin sy'n tybio y bydd parhad yn y trefniadau cymorth sydd eisoes ar waith ar gyfer amaethyddiaeth cartref a masnachu (h.y. y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn llwyr integredig o fewn Marchnad Sengl yr UE a chyda thaliadau uniongyrchol i ffermwyr cywerth â'r taliadau presennol dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin). Mae cyfnod yr amcanestyniadau'n cwmpasu 2016-2025, ac mae'r dewis o drefniadau masnachu dan bob senario wedi'u hymgorffori o fewn y modelu o 2019. Ni cheir unrhyw newidiadau i'r rhagdybiaethau macroeconomaidd sylfaenol, e.e. cyfraddau cyfnewid, ar gyfer y senarios unigol at ddiben y dadansoddiad hwn.

Mae amrediad y dadansoddiad yn ystyried mesurau cyfun ar gyfer y sector amaethyddiaeth er enghraifft cynhyrchiant, prisiau cynhyrchwyr (prisiau cyfanwerthu ar gyfer caws a menyn) ac allbwn, yn hytrach nag effeithiau posib ar raddfa'r fferm a'u dosbarthiad. Er mwyn canolbwyntio ar effeithiau dewis o senarios masnachu, nid yw amrediad y dadansoddiad hwn yn ceisio modelu unrhyw newidiadau i bolisïau amaethyddol domestig o fewn y senarios.

O ystyried y rhagdybiaethau modelu a'r elfennau ansicr, wrth ddehongli'r canlyniadau dylid canolbwyntio ar faint a chyfeiriad eang effeithiau posib yn hytrach nag amcangyfrifon pwynt penodol[2]. Mae ffocws y canlyniadau o fewn yr adroddiad ar raddfa'r Deyrnas Unedig, lle mae modd cyfiawnhau

[2] Dylid nodi hefyd y byddai datblygiadau mewn perthynas â chyfraddau cyfnewid a marchnadoedd y byd yn effeithio ar faint yr amcangyfrifon hyn.

mwy o hyder o ystyried yr ansicrwydd ynghylch sut y byddai amcanestyniadau'r effeithiau ar gyfer y dewis o senarios yn gweithio fesul ardal o fewn y Deyrnas Unedig. Serch hynny, er y rhagwelir rhai gwahaniaethau mewn prisiau o fewn y Deyrnas Unedig ar gyfer rhai nwyddau amaethyddol, mae'r effeithiau a ragwelir ar raddfa Cymru gyfan yn dueddol o ddilyn yr un llwybr prisiau â gweddill y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan adlewyrchu marchnad integredig y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r effeithiau gwahaniaethol posib dan amrywiol senarios rhwng cynhyrchwyr amaethyddol (a thrwy hynny prisiau bwyd).

## Canfyddiadau


### i. Cytundeb Masnach Rydd wedi'i deilwra'n arbennig gyda'r UE

Yn achos Cytundeb Masnach Rydd wedi'i deilwra'n arbennig gyda'r UE, o ystyried y newidiadau cyfyngedig i drefniadau masnach (a thrwy hynny graddau'r tarfu ar lif masnach) o gymharu â'r waelodlin, yn gyffredinol mae'r senario hwn yn dueddol o awgrymu effeithiau gweddol ddinod ar brisiau cynhyrchwyr amaethyddol a draws sectorau amaethyddol. O ganlyniad, gwelir effeithiau ffiniol ar gynhyrchiant a gwerth yr allbwn yn unig. Mae prisiau'r Deyrnas Unedig yn dueddol o gynyddu ychydig ar gyfer y cynnyrch hynny lle mae'r DU yn fewnforiwr net (e.e. cig eidion a chaws), ond gostwng ychydig ar gyfer nwyddau lle mae'r DU yn allforiwr net (e.e. defaid a barlys). Mae'r amcanestyniad o'r gwahaniaeth yng ngwerth yr allbwn fel canran (pris y cynhyrchwr x cynhyrchiad) ar gyfer pob un o'r nwyddau (eidion, defaid, moch, dofednod, llaeth a chynnyrch llaeth, gwenith a barlys) rhwng y waelodlin a'r senario hwn yn 2025 yn amrywio rhwng -2% a +3%.

Mae'r amcanestyniadau hefyd yn awgrymu effeithiau cyfyngedig ar Gymru'n gyffredinol yn y senario hon. Mae'r amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynhyrchu gwartheg yng Nghymru +0.2% yn uwch na'r waelodlin yn 2025, ac na fydd newid mewn cynhyrchu defaid. Mae cynhyrchu llaeth a phrisiau hefyd ychydig yn uwch (+0.4% a +1.2%, yn ôl eu trefn o gymharu â'r waelodlin yn 2025 – er, o fewn y cyd-destun hwn, gellid dehongli nad yw amcangyfrifon o'r fath yn wahanol iawn i'r waelodlin.

**Ffigur C1: Amcanestyniad o'r newid yng nghanran prisiau nwyddau**

**Cynhyrchu a gwerth allbwn y DU o gymharu â'r waelodlin yn 2025 – cytundeb masnachu rydd wedi'i deilwra'n arbennig gyda'r UE**



## ii. Tariffau Rhagosodedig Sefydliad Masnach y Byd

Mae senario ragosodedig Sefydliad Masnach y Byd yn cynrychioli trefniadau masnachu sy'n ymdebygu mwy i 'ddiffynnaeth', trwy gyflwyno tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar fasnachu rhwng y DU a'r 27 gwlad fydd ar ôl yn yr UE. Ar gyfer llawer o nwyddau amaethyddol, mae'r tariffau rhagosodedig ar gyfer y Wlad Fwyaf Ffafriol yn sylweddol, ac mae'r modelu'n awgrymu y byddai hyn yn arwain at addasiadau sylweddol i lif masnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r 27 o wledydd sydd ar ôl yn yr UE ar gyfer rhai nwyddau, gydag effeithiau ar farchnad ddomestig y DU o ganlyniad. Mae'r canlyniadau'n awgrymu amrywiad sylweddol yn y deilliannau o dan y senario hon ar draws nwyddau amaethyddol, gyda chyfeiriad yr ardrawiad yn ymwneud yn gyffredinol â ph'un ai fod y DU yn dueddol o fod yn allforiwr net neu'n fewnforiwr net ar gyfer y nwyddau amaethyddol penodol.

Yn ôl yr amcanestyniadau, rhagwelir y bydd prisiau a gwerthoedd allbwn cynhyrchwyr yn y Deyrnas Unedig yn nodedig uwch ar gyfer y sectorau Cynnyrch Llaeth, Eidion, Moch a Dofednod o gymharu â'r waelodlin yn 2025, ac y bydd gosod y tariffau'n gostwng y gallu i gystadlu a swmp y mewnforion o'r UE. Yn achos eidion, mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd prisiau cynhyrchwyr tua 17% yn uwch na'r waelodlin yn 2025. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer prisiau cynhyrchwyr cig moch a dofednod tua 18% a 15% yn uwch[3] o gymharu â'r waelodlin erbyn 2025. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer prisiau nwyddau caws a menyn 29% a 43% yn uwch, yn ôl eu trefn, gyda phrisiau llaeth a chynnyrch llaeth y Deyrnas Unedig tua 30% yn uwch yn y senario hon nag o dan y waelodlin yn 2025[4].

Mae prisiau cynhyrchwyr uwch yn dueddol o gael effaith gadarnhaol ar gynhyrchu, ond byddai disgwyl hefyd iddynt amlygu ym mhrisiau defnyddwyr gan felly effeithio ar gyllidebau defnyddwyr a phatrymau defnyddio; byddai disgwyl i brisiau bwyd uwch gael effaith anghyfrannol ar aelwydydd ar incwm is y mae gwariant ar fwyd yn gyfran uwch o'u hincwm.

Fodd bynnag, mae'r modelu hefyd yn awgrymu effeithiau negyddol ar gyfer rhai nwyddau eraill, yn enwedig ar gyfer cig defaid, gan fod tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar allforion o'r Deyrnas Unedig i'r UE yn cael effaith niweidiol ar y gallu i gystadlu ac felly ar swmp allforion o'r fath o'r DU. Rhoddir hwb, felly, i argaeledd cyflenwadau o fewn marchnad y DU, sy'n gwthio prisiau i lawr (mae'r amcanestyniadau ar gyfer prisiau cig defaid y Deyrnas Unedig tua 30% yn is yn y senario hwn na'r waelodlin yn 2025). Serch hynny, mae'r canlyniadau ar gyfer sector defaid y Deyrnas Unedig yn arddangos rhywfaint o sensitifrwydd i'r rhagdybiaethau ynghylch sut fyddai cwota tariff presennol yr UE yn cael ei rannu[5].

Fodd bynnag, mae'r modelu hefyd yn awgrymu effeithiau negyddol ar gyfer rhai nwyddau eraill, yn enwedig ar gyfer cig defaid, gan fod tariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol ar allforion o'r Deyrnas Unedig i'r UE yn cael effaith niweidiol ar y gallu i gystadlu ac felly ar swmp allforion o'r fath o'r DU. Rhoddir hwb, felly, i argaeledd cyflenwadau o fewn marchnad y DU, sy'n gwthio prisiau i lawr (mae'r amcanestyniadau ar gyfer prisiau cig defaid y Deyrnas Unedig tua 30% yn is yn y senario hwn na'r waelodlin yn 2025). Serch hynny, mae'r canlyniadau ar gyfer sector defaid y Deyrnas Unedig yn arddangos rhywfaint o sensitifrwydd i'r rhagdybiaethau ynghylch sut fyddai cwota tariff presennol yr UE yn cael ei rannu.

---

[3] Nid yw'r modelu'n dadansoddi cig wedi'i brosesu'n benodol – mae masnach wedi'i brosesu'n bwysig ar gyfer y cynhyrchion hyn, ac mae'n debygol y byddai gosod tariffau ar nwyddau o'r fath yn golygu cynnydd uwch ym mhrisiau'r Deyrnas Unedig nag y buasai'r amcanestyniadau hyn yn ei awgrymu


[4] Oherwydd amrywiad yn y cyfuniad o nwyddau, mae yna rai gwahaniaethau yn llwybrau prisiau llaeth cynhyrchwyr Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

[5] Ar gyfer is-senario ble mae Cwota Tariff cig defaid y Deyrnas Unedig ar gyfer mewnforion trydydd gwlad yn gostwng 50%, mae pris cig defaid tua 13% yn is o gymharu â'r waelodlin yn 2025, gan amlygu pwysigrwydd penderfyniadau ynghylch Cwotâu Tariff priodol.

[6] Mae yna amrywiaeth o opsiynau ble byddai modd gweithredu rhyddfrydoli masnach mewn ffordd ddethol, naill ai trwy Gytundebau Masnachu Rydd, neu amrywiadau yn y tariffau mewnforio a osodir ar gynhyrchion penodol neu eu gostwng yn llai dramatig yn gyffredinol.

## Ffigur C2: Amcanestyniad o'r newid yng nghanran prisiau nwyddau

**Cynhyrchu a gwerth allbwn y DU o gymharu â'r waelodlin yn 2025 – tariffau rhagosodedig sefydliad masnach y byd %**




Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu hefyd y bydd y newidiadau i'r llif masnach yn gwthio prisiau gwenith a barlys y Deyrnas Unedig i lawr – mae'r amcanestyniadau'n awgrymu tua 4% a 5% yn is, yn ôl eu trefn, o gymharu â'r waelodlin yn 2025. Serch hynny, mae cyfeiriad yr effeithiau ar brisiau yn cael ei wrthdroi ar gyfer prisiau gwenith mewn dadansoddiad o sensitifrwydd, sy'n rhagdybio yn lle na roddir unrhyw dariff gwenith ar allforion o'r Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd.

O ganlyniad i'r effeithiau ar brisiau a chynhyrchiant, mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd gwerth yr allbwn ar gyfer cig eidion +29% yn uwch na'r waelodlin yn 2025, +44% ar gyfer moch, +28% ar gyfer dofednod a +37% ar gyfer llaeth a chynnyrch llaeth. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer gwerth yr allbwn cig defaid yn -38% yn is, o gymharu â'r waelodlin yn 2025, ac mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau posib o ran addasiadau strwythurol tymor canolig i hirach, er y byddai amrywiaeth o ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar addasiadau o'r fath, er enghraifft ffynonellau incwm eraill yr aelwyd ac ysgogiad i ffermio.

Ar raddfa Cymru gyfan, mae'r amcanestyniadau ar gyfer cynhyrchu gwartheg tua 12% yn uwch na'r waelodlin ar gyfer 2025, ond 15% yn is ar gyfer cynhyrchu defaid. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer prisiau llaeth hefyd tua 28% yn uwch na'r waelodlin, gyda chynhyrchu tua 9% yn uwch.

### iii. Rhyddfrydoli masnach unochrog

Bwriedir i'r senario hon gynrychioli sefyllfa 'radical' gan dynnu'r amddiffyniad domestig a geir gan dariffau ar fewnforion. Mae yna rai rhagdybiaethau'n gyffredin i'r senario rhyddfrydoli masnach unochrog a thariffau rhagosodedig Sefydliad Masnach y Byd, er, mae'n bwysig nodi yn yr achos hwn na fydd tariff ar fewnforion i'r Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd nac o weddill y byd . Mae allforion o'r Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i dariffau y Wlad Fwyaf Ffafriol partneriaid masnachu, gan gynnwys allforion o'r Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd.

Ar gyfer y senario rhyddfrydoli masnach unochrog, mae'r canlyniadau'n awgrymu y buasai cael gwared ar dariffau mewnforio'r Deyrnas Unedig yn cael effaith negyddol ar brisiau cynhyrchwyr, cynhyrchiad

a gwerth yr allbwn yn y Deyrnas Unedig, a hynny ar draws yr holl nwyddau amaethyddol dan ystyriaeth. Byddai'r amrywiad yng ngraddau'r effaith yn Unedig a'r byd. Mae yna effaith benodol ar y sectorau eidion a defaid o ystyried natur gystadleuol iawn cynhyrchu'r nwyddau hyn yn rhai o'r gwledydd eraill, sy'n arwain at fewnlifiad uwch mewnforion o'r fath.


Mae'r amcanestyniadau ar gyfer pris eidion y Deyrnas Unedig tua 45% yn is na'r waelodlin ar gyfer 2025, gyda chyflenwadau o weddill y byd yn disodli mewnforion o'r Undeb Ewropeaidd . O ganlyniad i'r effeithiau ar brisiau, mae cynhyrchu cig eidion erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau tua 10% yn is na'r waelodlin. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer pris cig defaid y Deyrnas Unedig tua 29% yn is na'r waelodlin yn 2025, sy'n arwain at gynhyrchu domestig tua 11% yn is na'r waelodlin yn 2025.

O ganlyniad i'r effeithiau hyn ar brisiau a chynhyrchu, mae'r amcanestyniadau ar gyfer gwerth allbwn cig eidion tua 50% yn is o gymharu â'r waelodlin yn 2025, gyda gwerth allbwn defaid -36% yn is, a llaeth a chynnyrch llaeth tua -12% yn is.

Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd effaith gostwng prisiau cynhyrchwyr domestig yn arwain at gynhyrchiant domestig is, ond byddai disgwyl gweld adlewyrchiad o brisiau is y cynhyrchwyr mewn prisiau bwyd is a llai o wariant ar nwyddau o'r fath ymhlith defnyddwyr domestig.

## Ffigur C3: Amcanestyniad o'r Newid yng Nghanran Prisiau Nwyddau

**Cynhyrchu a gwerth allbwn y DU o gymharu â'r waelodlin yn 2025 – rhyddfrydoli masnach unochrog**



Am ragor o wybodaeth ewch i:

**https://beta.llyw.cymru/brexit**

**llyw.cymru**